

Rhaglen Gyflawn



north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cyfarfod

BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Dyddiad ac Amser

2.30 y.h., DYDD GWENER, 5ED CHWFROR, 2021

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Annes Sion

01286 679490

AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 29 Ionawr 2021)

BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Hugh Evans	Cyngor Sir Ddinbych
Llinos Medi Huws	Cyngor Sir Ynys Môn
Mark Pritchard	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Ian B. Roberts	Cyngor Sir y Fflint
Dyfrig L. Siencyn	Cyngor Gwynedd
Sam Rowlands	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

Dafydd Evans	Grwp Llandrillo Menai
Maria Hinfelaar	Prifysgol Glyndwr
Yana Williams	Coleg Cambria
Askar Sheibani	Bwrdd Cyflenwi Busnes
Yr Athro Iwan Davies	Prifysgol Bangor

Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

Annwen Morgan	Cyngor Sir Ynys Môn
Iwan Davies	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Colin Everett	Cyngor Sir y Fflint
Judith Greenhalgh	Cyngor Sir Ddinbych
Ian Bancroft	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Dilwyn Williams	Cyngor Gwynedd

Swyddogion yn bresennol

Dafydd L. Edwards	Swyddog Adran 151
Iwan G. Evans	Swyddog Monitro
Alwen Williams	Cyfarwyddwr Rhaglen
Hedd Vaughan Evans	Rheolwr Gweithrediadau
Nia Medi Williams	Uwch Swyddog Gweithredol

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

5 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2020 fel rhai cywir.

5. CYLLIDEB 2020/21: ADOLYGIAD 3YDD CHWARTER

7 - 13

Dafydd Edwards i ddarparu manylion y gwariant a'r incwm gwirioneddol ar gyfer trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2020/21 i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

6. CYTUNDEB TWF TERFYNOL

14 - 47

Alwen Williams i gyflwyno fersiwn derfynol o'r Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru a baratowyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

7. ADRODDIAD AR UCHAFBWYNTIAU'R PORTFFOLIO

48 - 64

Hedd Vaughan-Evans i ddiweddarau'r Bwrdd Uchelgais ar y cynnydd a wnaed ers cwblhau'r Cytundeb Terfynol yn Rhagfyr 2020.

8. PROSES AU CYLLID AC ACHOSION BUSNES

65 - 67

Hedd Vaughan-Evans i ddiweddarau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar y prosesau perthnasol ar gyfer cymeradwyo achosion busnes y prosiectau a sicrhau bod y cyllid yn cael ei dynnu i lawr yn flynyddol.

9. YMGYSYLLTU GYDA'R SECTOR BREIFAT

68 - 78

Alwen Williams i gyflwyno Cylch Gorchwyl drafft arfaethedig ar gyfer y Bwrdd Cyflawni Busnes, a ddatblygwyd ar y cyd rhwng y Grŵp Cyflawni Busnes a'r Swyddfa Rheoli Portffolio.

10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol(yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau . Am y rhesymau yma rwy'n fodlon fod y mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

11. ADOLYGIAD GWAELODLIN PROSIECTAU

BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD GWENER, 11 RHAGFYR 2020

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cyngorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Dafydd Meurig (Cyngor Gwynedd), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ian B.Roberts (Cyngor Sir y Fflint) a Sam Rowlands (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes) a'r Athro Iwan Davies (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Annwen Morgan (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint), Judith Greenhalgh (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Dilwyn Williams (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol – Dafydd Edwards (Swyddog Cyllid Statudol – Awdurdod Lletya), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya), Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau), Jane Richardson (Cadeirydd Grŵp Swyddogion Gweithredol), Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd).

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Dafydd Meurig (Cyngor Gwynedd) i'r cyfarfod i ddirprwyo ar ran y Cynghorydd Dyfrig Siencyn.

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd Uchelgais a gynhaliwyd ar 23 Hydref, 2020 fel rhai cywir.

5. DOGFENNAU ATODOL Y CYNLLUN TERFYNOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio a Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau).

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r dogfennau atodol i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd, sef y Gofrestr Risg, y Cynllun Monitro a Gwerthuso, y Strategaeth Gwireddu Buddion a'r Strategaeth Rheoli Newid ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r Bwrdd Uchelgais yn ymrwymedig i gyflawni Cytundeb Terfynol gyda'r ddwy Lywodraeth cyn diwedd mis Rhagfyr 2020.

Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi datblygu'r dogfennau sydd angen eu cyflwyno i'r ddwy Lywodraeth er mwyn cyrraedd Cytundeb Terfynol.

Mae angen i'r Swyddfa Rheoli Portffolio gael trefniadau rheoli effeithiol yn eu lle er mwyn sicrhau y gellir cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru yn llwyddiannus.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn diweddarar'r Bwrdd ar broses y Cynllun Twf Terfynol ac yn cyflwyno'r dogfennau atodol oedd eu hangen i gyrraedd Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Nodwyd bod bwriad i barhau i ddatblygu a mireinio'r dogfennau hyn dros y 6-12 mis nesaf.

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

Nododd y Cadeirydd fod yr holl bartneriaid bellach wedi cymeradwyo'r dogfennau allweddol oedd eu hangen ar gyfer cyrraedd Cytundeb Terfynol ar Gynllun Twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Diolchodd i bawb am eu gwaith ardderchog gan nodi fod yr hyn roedd y 6 awdurdod, yn gweithio ar y cyd ar draws y Gogledd gyda'u partneriaid a'r prif weithredwyr, wedi llwyddo i'w gyflawni yn anhygoel.


Nodwyd ymhellach bod Bwrdd Gweithredu Cynlluniau Twf a Dinesig Cymru wedi cymeradwyo'r achos busnes portffolio. Roedd cyngor yn cael ei baratoi i'r gweinidogion a threfniadau ar y gweill ar gyfer cynnal seremoni arwyddo'r Cytundeb Terfynol yn rhithiol ar 17 Rhagfyr. Anogwyd pawb i roi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad hwn fel bod mwy o'n partneriaid a thrigolion Gogledd Cymru yn gallu ymuno yn y dathliad.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Bod y fframwaith yn gadarn ac ansawdd yr adroddiadau yn wych, a llongyfarchwyd y Tîm ar eu holl waith.
- O ystyried y sefyllfa o ran Brexit, a'r risgiau o gwmpas newidiadau economaidd, ei bod yn dda gweld pwyslais ar fodelu rhesymeg a rhagdybiaethau, fel ei bod yn glir i ni petai'r amgylchedd yn newid, neu fod rhywbeth yn effeithio ar y prosiectau rydym yn gweithio arnynt. Roedd yn dda cael dogfennau mewn amser real i'n galluogi i ddadansoddi a yw'r buddion yn cael eu gwireddu, neu a oes angen i ni weithredu'n wahanol o ganlyniad i newidiadau posib' yn yr amgylchedd, megis Brexit.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 1.20 y.h.

CADEIRYDD



north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

05/02/2021

Teitl: Cyllideb Refeniw 2020/21 - Adolygiad Trydydd Chwarter (Rhagfyr 2020)

Awdur: Dafydd L. Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya

1. Pwrpas yr Adroddiad

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu manylion y gwariant a'r incwm gwirioneddol ar gyfer trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2020/21 i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol.
- 1.2 Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol o'i sefyllfa gwariant a ragamcanir yn erbyn ei gyllideb flynyddol gymeradwy.

2. Y Penderfyniad a Geisir

- 2.1 Derbyn a nodi Adolygiad Trydydd Chwarter cyd-bwyllgor y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2020/21.
- 2.2 Derbyn cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor i drosglwyddo unrhyw danwariant yn 2020/21 i'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi a fydd ar gael yn y dyfodol.

3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad

- 3.1 Nodi tanwariant a ragwelir o £156,255 yn 2020/21. Gellir trosglwyddo unrhyw danwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i'r gronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi.

4. Cefndir

- 4.1 Yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin 2020, cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais ei gyllideb ar gyfer 2020/21 o £1,673,690. Roedd hyn yn cynnwys £1,468,420 ar gyfer y Swyddfa Rheoli Portffolio, £155,770 ar gyfer gwasanaethau cefnogol y Corff Atebol a £49,500 ar gyfer y Cyd-bwyllgor. Daeth y cyfraniadau ariannol a gyllidebwyd gan gyfraniadau partneriaid, arian grant Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF), y gronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi a grant Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru).
- 4.2 Cyflwynwyd yr adolygiad ail chwarter i'r Bwrdd Uchelgais ar 23 Hydref 2020, a rhagwelwyd tanwariant o £78,452 bryd hynny.
- 4.2 Cyflwynir yr adroddiad alldro a'r adroddiad blynyddol ar gyfer 2020/21 i gyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 14 Mai 2021.

5. Gwariant ac incwm yn 2020/21

- 5.1 Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o'r gwariant a'r incwm gwirioneddol ar gyfer trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2020/21, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol.
- 5.2 Ar ddiwedd y trydydd chwarter, y sefyllfa wirioneddol net oedd gwarged o £121,080 (wedi'i effeithio gan Covid-19).
- 5.3 Rhagwelir y bydd y sefyllfa alldro net ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21 yn danwariant o £156,255.

Swyddfa Rheoli Portffolio

- 5.4 Mae rhagamcan o danwariant o £578,773 ar gyfer y Swyddfa Rheoli Portffolio yn 2020/21. Mae hyn wedi cynyddu £151,772 ers y chwarter diwethaf, yn bennaf yn sgil oedi pellach wrth recriwtio i swyddi a gostyngiadau eraill yn ymwneud â Covid-19 dan benawdau gwariant megis costau teithio a chynhaliaeth; hyfforddiant; ymgysylltu a chyfarfodydd; cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus; cynllunio, datblygu a chefnogi prosiectau.

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol

- 5.5 Mae'r rhagamcan o gostau ar gyfer gwasanaethau cefnogol y corff atebol yn adlewyrchu'r ffigyrau a gafodd eu cynnwys yn y gyllideb yn y chwarter diwethaf, ond, gyda rhagor o wybodaeth ar gael, rhagwelir tanwariant net o £22,364 ar gyfer eleni.

Cyd-bwyllgor

- 5.6 Amcangyfrifir tanwariant o £5,767 ar bennawd cyllideb y Cyd-bwyllgor, sy'n gynydd bychan ers y chwarter diwethaf.

Cyfraniadau Ariannu

- 5.7 Yn seiliedig ar ein rhagamcan o wariant ar weithwyr o £596,013 ar gyfer 2020/21, ynghyd â gwariant ar gyfer y cyfnod ôl-weithredol o fis Ebrill 2019 (sydd wedi'i newid o'r cyfnod ôl-weithredol a ragwelwyd yn wreiddiol i ddechrau o fis Gorffennaf 2018), gellid derbyn £561,720 o gyllid grant yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Nid yw'n debygol y byd arnom angen yr incwm o'r gronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi yn 2020/21 yn sgil derbyn y grant ESF wedi'i ôl-ddyddio.
- 5.8 Mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ar lythyr cynnig grant y Cynllun Twf, er mwyn caniatáu i'r taliad cyntaf o £16m i gael ei ryddhau cyn diwedd mis Mawrth 2021. Gan fydd hwn yn grant cyfalaf a dderbynnir o flaen llaw, bydd yn cael ei ddangos ar 31 Mawrth 2021 fel credydwr ar y Datganiad o falansau yn y Ffurflen Flynyddol, a bydd ar gael i ariannu y rhaglen gyfalaf yn ystod 2021/22.

6. Goblygiadau Staffio

- 6.1 Mae'r amcangyfrif o'r sefyllfa alldro ar gyfer 2020/21 yn adlewyrchu recriwtio sydd wedi digwydd yn y misoedd diwethaf, gydag unrhyw recriwtio pellach yn debygol o ddechrau yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd. Gweler strwythur staffio cyfredol y Swyddfa Rheoli Portffolio yn Atodiad 2.

7. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd

- 7.1 Cyflwynwyd Atodiad 1, ynghyd â chrynodeb o gynnwys yr adroddiad hwn, i'r Grŵp Gweithredol ar 15 Ionawr 2021.

8. Atodiad

Atodiad 1 - Cyllideb y Bwrdd Uchelgais 2020/21 - Adolygiad Trydydd Chwarter (Rhagfyr 2020).

Atodiad - Strwythur staffio y Swyddfa Rheoli Portffolio.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

ii. Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:

Awdur yr adroddiad hwn.

Cyllideb y Bwrdd Uchelgais 2020/21 - Adolygiad Trydydd Chwarter (Rhagfyr 2020).

Atodiad 1

	Cyllideb Sylfaenol	Trosglwyddiadau unwaith ac am byth	Cyfanswm Cyllideb	Ebrill - Rhagfyr 2020	Amcangyfrif o'r Sefyllfa Derfynol	Gor / (Tan)wariant
Gwariant	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)
Swyddfa Rheoli Portffolio						
Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal)	933,740		933,740	352,419	596,013	(337,727)
Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr		10,000	10,000	11,644	16,644	6,644
Teithio a Chynhaliath	20,000		20,000	0	0	(20,000)
Hyfforddiant	10,000	10,000	20,000	1,125	5,000	(15,000)
Ymgysylltu a Chyfarfodydd	15,000		15,000	99	99	(14,901)
Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus	37,530	62,470	100,000	14,050	35,000	(65,000)
Cyflenwadau a Gwasanaethau	10,000	10,000	20,000	9,232	15,000	(5,000)
Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol	42,290		42,290	42,287	42,287	(3)
Eiddo	17,500		17,500	10,070	17,500	0
Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau		180,000	180,000	92,120	140,783	(39,217)
Trafnidiaeth		109,890	109,890	14,761	21,321	(88,569)
Cyfanswm Swyddfa Rheoli Portffolio	1,086,060	382,360	1,468,420	547,807	889,647	(578,773)
Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol						
Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid	98,110		98,110	0	68,237	(29,873)
Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro)	20,250		20,250	0	20,250	0
Cefnogaeth Gorfforaethol	26,060		26,060	21,876	37,580	11,520
Technoleg Gwybodaeth	11,350		11,350	0	7,339	(4,011)
Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol	155,770		155,770	21,876	133,406	(22,364)
Cyd-bwyllgor						
Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol	18,000		18,000	14,933	33,000	15,000
Ymgynghoriaeth Trysorlys	10,000		10,000	8,975	8,975	(1,025)
Ffi Archwilio Allanol	1,500		1,500	(511)	1,000	(500)
Bwrdd Cyflawni Busnes	20,000		20,000	758	758	(19,242)
Cyfanswm Cyd-bwyllgor	49,500		49,500	24,155	43,733	(5,767)
Cyfanswm Gwariant	1,291,330	382,360	1,673,690	593,838	1,066,786	(606,904)


Cyllideb y Bwrdd Uchelgais 2020/21 - Adolygiad Trydydd Chwarter (Rhagfyr 2020).

Atodiad 1

	Cyllideb Sylfaenol	Trosglwyddiadau unwaith ac am byth	Cyfanswm Cyllideb	Ebrill - Rhagfyr 2020	Amcangyfrif o'r Sefyllfa Derfynol	Gor / (Tan)wariant
Incwm	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)
Cyfraniadau Ariannu						
Cyfraniadau Partneriaid						
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(50,000)		(50,000)	(50,000)	(50,000)	0
Cyngor Sir Ddinbych	(50,000)		(50,000)	(50,000)	(50,000)	0
Cyngor Sir y Fflint	(50,000)		(50,000)	(50,000)	(50,000)	0
Cyngor Gwynedd	(50,000)		(50,000)	(50,000)	(50,000)	0
Cyngor Sir Ynys Môn	(50,000)		(50,000)	(50,000)	(50,000)	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(50,000)		(50,000)	(50,000)	(50,000)	0
Prifysgol Bangor	(25,000)		(25,000)	(25,000)	(25,000)	0
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	(25,000)		(25,000)	(25,000)	(25,000)	0
Coleg Cambria	(25,000)		(25,000)	(25,000)	(25,000)	0
Grŵp Llandrillo Menai	(25,000)		(25,000)	(25,000)	(25,000)	0
Cyfraniadau Partneriaid - Eraill						
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(40,000)		(40,000)	(40,000)	(40,000)	0
Cyngor Sir Ddinbych	(40,000)		(40,000)	(40,000)	(40,000)	0
Cyngor Sir y Fflint	(40,000)		(40,000)	(40,000)	(40,000)	0
Cyngor Gwynedd	(40,000)		(40,000)	(40,000)	(40,000)	0
Cyngor Sir Ynys Môn	(40,000)		(40,000)	(40,000)	(40,000)	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(40,000)		(40,000)	(40,000)	(40,000)	0
Grant Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru)		(109,890)	(109,890)	(4,781)	(21,321)	88,569
Cyllid Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd	(651,330)		(651,330)	(70,137)	(561,720)	89,610
Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi		(272,470)	(272,470)	0	0	272,470
Cyfanswm Incwm	(1,291,330)	(382,360)	(1,673,690)	(714,918)	(1,223,041)	450,649
Gor / (Tan) wariant Net	0	0	0	(121,080)	(156,255)	(156,255)

Swyddfa Rheoli Portffolio | Portfolio Management Office

Tud. 13



- Swyddi Presennol
Current Posts
- Swyddi wedi penodi ond heb gychwyn yn y swydd
Appointed but not yet started



ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
5^{ed} CHWEFROR, 2021

TEITL: *Cytundeb Terfynol*

AWDUR: *Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio*

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru a baratowyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- 1.2. Paratowyd y Cytundeb Penawdau'r Telerau yng nghyd-destun yr Achos Busnes Portffolio, sydd wedi derbyn cefnogaeth a chymeradwyaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Bod y Bwrdd yn nodi bod y Cytundeb Terfynol wedi'i gwblhau.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Yn Nhachwedd 2019 cytunodd y Bwrdd Uchelgais a'r ddwy Lywodraeth i Benawdau'r Telerau, gyda Chytundeb Terfynol i'w gwblhau yn 2020.
- 4.2. Mae'r Cytundeb Terfynol yn ddatganiad o gytundeb rhwng y Partneriaid, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru.
- 4.3. Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi trafod a chytuno i argymhell y Cytundeb Terfynol drafft yn ystod cyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 23 Hydref, 2020. Cyflwynwyd y Cytundeb Terfynol drafft drwy brosesau democrataidd a phenderfynu y partneriaid. Datblygwyd y ddogfen derfynol ar y cyd drwy gytundeb gyda'r Llywodraethau.
- 4.4. Cynhaliwyd seremoni arwyddo'r Cytundeb Terfynol yn ystod Rhagfyr 2020, lle roedd 10 partner y Bwrdd Uchelgais yn bresennol ynghyd a Gweinidogion o'r ddwy Lywodraeth.
- 4.5. Atodir copi o'r Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru yn **Atodiad 1**.

ATODIADAU:

Atodiad 1 Cytundeb Terfynol

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:

“Mae arwyddo y Cytundeb Twf Terfynol yn garreg filltir allweddol ac mae’n briodol fod y Bwrdd Uchelgais yn derbyn adroddiad ffurfiol ar gwblhau cam yma.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):

“Cadarnhaf sylwadau y Swyddog Monitro.”

CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU CYTUNDEB TERFYNOL



Rhagair

Mae'r **Cynllun Twf** wedi'i ddatblygu drwy gydweithio agos ac ymrwymiad gan bartneriaid ar draws y llywodraethau a'r sectorau, i gyflawni buddsoddiad a newid cadarnhaol a hirhoedlog a fydd yn galluogi twf economaidd a chyflogaeth yn yr hir-dymor.

Dros bymtheg mlynedd, bydd y Cynllun Twf yn ein grymuso i gydweithio a chymryd rheolaeth dros sut rydym yn buddsoddi yn ein dyfodol.

Mae'n gyfle unigryw i ddatganoli buddsoddiadau'r llywodraeth, gwneud y penderfyniadau buddsoddi hynny yn lleol ac arddangos y gwerth a ddaw yn sgil hyn. Yn y pendraw, fel rhan o raglen fuddsoddi ehangach, bydd y Cynllun Twf yn galluogi i ni adeiladu economi bywiog, cynaliadwy a chynhwysol i Ogledd Cymru.

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £240miliwn ar y cyd i Gynllun Twf Gogledd Cymru dros 15 mlynedd. Law yn llaw â phartneriaid Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r sector preifat, mae'r Cynllun Twf yn ceisio cyflawni cyfanswm o hyd at £1biliwn o fuddsoddiad yn economi'r Gogledd (£120m yr un gan lywodraethau'r DU a Chymru), i greu 3800 o swyddi ychwanegol net a chynhyrchu £2.2biliwn mewn GVA ychwanegol net.

Gan adeiladu ar [Benawdau'r Telerau](#), a lofnodwyd ym mis Tachwedd 2019, mae'r ddogfen hon yn amlinellu gweledigaeth rymus i Ogledd Cymru. Nod y Cynllun Twf yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd, gan adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd wrth fynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hir-dymor i gyflawni twf cynhwysol.

Dull gweithredu'r Cynllun Twf yw hyrwyddo twf mewn ffordd gynhwysol, gynaliadwy, y gellir ei ymestyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, â tharged Net Sero y DU.

Bydd y Cynllun Twf hefyd yn hyrwyddo strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru: Ffyniant i Bawb sy'n ymrwymo i gyflawni model o ddatblygiad economaidd sy'n canolbwyntio ar y rhanbarth, gan integreiddio polisi, rhaglenni ac ymyraethau i gefnogi twf cynaliadwy a chynhwysol yn well ym mhob rhan o Gymru, ynghyd ag uchelgais Llywodraeth y DU i gryfhau lle Cymru yn yr Undeb.

Mae trechu anghydraddoldeb wrth galon agenda *Levelling Up* Llywodraeth y DU, a Chynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i wreiddio yn yr egwyddor bod llefydd yn bwysig a'n huchelgais ni yw cyflawni gwell swyddi yn agosach at adref.

Mae pob parti'n llofnodi'r ddogfen hon yn cadarnhau ein hymrwymiad ar y cyd i weithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru yn llawn, gyda'n gilydd, dros y pymtheg mlynedd nesaf.

Edrychwn ymlaen at weld y buddion a ddaw yn sgil arwain y buddsoddiad pwysig hwn ar gyfer pobl a busnesau ledled y Gogledd.



Ken Skates AS (Aelod o'r Senedd)

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a
Gogledd Cymru
Llywodraeth Cymru




Julie James AS (Aelod o'r Senedd)

Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru




Rebecca Evans AS (Aelod o'r Senedd)

Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Llywodraeth Cymru



Simon Hart AS (Aelod Seneddol)

Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Llywodraeth y DU



David Davies AS (Aelod Seneddol)

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol
Llywodraeth y DU



Luke Hall AS (Aelod Seneddol)

Gweinidog Gwladol ar gyfer Twf
Rhanbarthol a Llywodraeth Leol
Llywodraeth y DU



Y Cynghorydd Sam Rowlands

Arweinydd


Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



Y Cynghorydd Hugh Evans

Arweinydd

Cyngor Sir Ddinbych



Y Cynghorydd Ian Roberts

Arweinydd

Cyngor Sir y Fflint



Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

Arweinydd

Cyngor Gwynedd



Y Cynghorydd Mark Pritchard

Arweinydd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam



Y Cynghorydd Llinos Medi Huws

Arweinydd

Cyngor Sir Ynys Môn

Mae'r holl bartïon i'r Cytundeb Terfynol hwn wedi darparu eu llofnodion yn electronig

1. Tabl Cynnwys

Tabl Cynnwys

Rhagair	2
1. Tabl Cynnwys	4
Tabl Cynnwys	4
2. Crynodeb Gweithredol	5
3. Cyflwyniad	6
4. Rhaglenni'r Cynllun Twf	17
5. Strwythur Lywodraethol	19
6. Rôl y Corff Atebol	27
7. Monitro a gwerthuso	28
8. Protocol Cyfathrebu	28
9. Cyflawni ar gyfer Gogledd Cymru.....	29
Atodiad 1 - Prosiectau Arfaethedig y Cynllun Twf	30
Atodiad 2 - Dogfennau Llywodraethu Ychwanegol i'r Cytundeb Terfynol	31
Atodiad 3 - Proses Cymeradwyo Cyllid Flynyddol.....	32

2. Crynodeb Gweithredol

Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru (y Cynllun Twf) yn gytundeb rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (*y cyfeirir ato o hyd ymlaen fel y Bwrdd Uchelgais*) er mwyn cyflawni buddsoddiad trawsffurfiol o £biliwn yn economi'r Gogledd.

Mae'r Bwrdd Uchelgais yn bartneriaeth rhwng chwe ardal Awdurdod Lleol rhanbarth Gogledd Cymru, sef Cyngorau Gwynedd, Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint ac hefyd yn cynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo-Menai.

Er gwaethaf twf diweddar, mae bwloch cynhyrchedd parhaus a chynyddol yn dal i fodoli rhwng y Gogledd a'r DU gydag amrywiadau eang yn y GVA (Gwerth Ychwanegol Crynswth) y pen ledled y rhanbarth. Mae mynd i'r afael â'r bwloch cynhyrchedd a'r anghyfartaledd hwn yn flaenoriaeth bwysig i'r Cynllun Twf.

Nod y Cynllun Twf yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd, gan adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd wrth fynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hir-dymor i gyflawni twf cynhwysol. Mae'r Cynllun Twf yn seiliedig ar gyflawni pum rhaglen:

- **Rhaglen Ynni Carbon Isel**
- **Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel**
- **Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth**
- **Rhaglen Tir ac Eiddo**
- **Rhaglen Ddigidol**

Drwy ganolbwyntio ar gyflawni'r rhaglenni hyn ar y cyd, bydd y Cynllun Twf yn llwyddo i gael effaith well yn nhermau ein huchelgais a'n defnydd o adnoddau na phrosiectau unigol.

Bydd pob un o'r rhaglenni a'r prosiectau o fewn y Cynllun Twf yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion hyn a chyflawni buddion i'r Gogledd. Bydd y buddion o'r Cynllun Twf yn cefnogi twf cynaliadwy a chynhwysol ledled y rhanbarth.

Mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Uchelgais wedi rhoi trefniadau cyflawni, sicrwydd a llywodraethu cadarn yn eu lle i gefnogi cyflawni'r Cynllun Twf.

Mae'r Cynllun Twf yn ceisio cyflawni cyfanswm o £1bn o fuddsoddiad yn economi'r Gogledd (£240m gan Lywodraethau'r DU a Chymru), i greu 3800 o swyddi ychwanegol net a chynhyrchu £2.2 biliwn mewn GVA ychwanegol net.


3. Cyflwyniad

Mae Cynlluniau Twf a Bargeinion Dinesig yng Nghymru yn gytundebau rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru i gydlynu ymyraethau buddsoddi a pholisi newydd i yrru twf mewn ardaloedd allweddol. Caiff y cynlluniau eu harwain yn lleol gydag arweinyddion yn dod ynghyd ar draws daearyddiaeth economaidd y cytunir arni'n lleol i ddatblygu cyfres o gynigion a fydd yn gyrru twf a chynhyrchedd ledled eu rhanbarth. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r partneriaid lleol hyn i gyflawni ymyraethau i ddarparu twf lleol.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Sefydlwyd y Bwrdd Uchelgais yn 2012 fel partneriaeth rhwng chwe ardal Awdurdod Lleol rhanbarth Gogledd Cymru, sef Cyngorau Gwynedd, Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae'r Bwrdd Uchelgais hefyd yn cynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai. Ar ddechrau 2019, sefydlwyd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ffurfiol fel cyd-bwyllgor.

Ffigwr 3.1 Map o Ogledd Cymru a Phartneriaid y Bwrdd Uchelgais



Mae'r Cynllun Twf yn bartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae'r Grŵp Cyflawni Busnes wedi bod yn cynrychioli'r sector preifat yn gryf, ynghyd â Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy sydd wedi bod yn allweddol i ddatblygu cynnig y Cynllun Twf. Sefydlwyd y Grŵp Cyflawni Busnes i weithredu fel grŵp ymgynghorol annibynnol i'r Bwrdd Uchelgais. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o berchnogion busnes ac uwch arweinyddion ar draws y diwydiannau sydd wedi herio'r Bwrdd Uchelgais drwy gydol y broses o adnabod a datblygu portffolio'r Cynllun Twf. Eu ffocws yw uchafu effaith y Cynllun Twf ar gyfer y rhanbarth a sicrhau y gall busnesau arwain a chael mynediad i gyfleoedd yn y sector preifat.

Mae Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, fel un o sylfaenwyr y Bwrdd Uchelgais, wedi gweithio'n agos iawn gyda sefydliadau partner a rhanddeiliaid rhanbarthol i ffurfio a dylanwadu ar gynnig y Cynllun Twf.

Y Weledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru

Yn 2016, mabwysiadodd partneriaid y Bwrdd Uchelgais *Weledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru* (y Weledigaeth Twf).

Y weledigaeth twf sydd wedi'i mabwysiadu yw datblygu "rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'n cysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon."

Seiliwyd y Weledigaeth Twf ar dair egwyddor allweddol i'r Gogledd:

- **Blaengar** - gan ganolbwyntio ar arloesedd mewn sectorau economaidd gwerth uchel i symud perfformiad economaidd ymlaen.
- **Gwydn** - gan ganolbwyntio ar gadw pobl ifanc, codi lefelau cyflogaeth a gwella sgiliau er mwyn cyflawni twf cynhwysol.
- **Cysylltiedig** - gan ganolbwyntio ar wella isadeiledd trafndiaeth a digidol er mwyn gwella cysylltedd strategol i'r rhanbarth ac o'i fewn.

Gan adeiladu ar y weledigaeth, cyflwynodd y Bwrdd Uchelgais ddogfen gynnig i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ym mis Hydref 2018. Arweiniodd hyn at lofnodi [Penawdau'r Telerau](#) ym mis Tachwedd 2019. Roedd lofnodi yn arddangos ymrwymiad gan bob partner i weithio gyda'i gilydd ar gyfer pobl a busnesau'r Gogledd, a chyflawni rhaglenni a phrosiectau lleol a fydd yn cynyddu cyfleoedd a ffyniant mewn cymunedau ledled y rhanbarth. Mae'r Cytundeb Terfynol hwn yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd drwy Benawdau'r Telerau.

Bydd Cynllun Twf yn **flaengar** gyda'r buddsoddiad hwn - yn adeiladu ar gryfderau'r rhanbarth i roi hwb i gynhyrchedd, meithrin arloesedd a bod yn gystadleuol yn y marchnadoedd y mae'n eu gwasanaethu. Mae gan y Gogledd ganolbwyntiau ymchwil ac arloesedd sydd wedi'u hen sefydlu eisoes, yn cynnwys AMRC Cymru ym Mrychdyn, Parc Gwyddoniaeth Menai ym Môn a Chanolfan Dechnoleg OpTICyn Llanelwy, sy'n helpu'r

rhanbarth i wthio'r ffiniau wrth ddod o hyd i feysydd twf newydd o fewn busnesau gweithgynhyrchu gwerth uchel. Bydd y Cynllun Twf yn buddsoddi ymhellach i greu canolfannau rhagoriaeth i wella enw da'r rhanbarth a galluogi twf yn y diwydiant pwysig hwn.

Bydd Cynllun Twf Gogledd Cymru yn mynd i'r afael â methiant marchnad hir-dymor sydd wedi bod yn rhwystr i fuddsoddiad masnachol - gan wneud y Gogledd yn lle mwy addas i fuddsoddi ynddo a datgloi'r potensial ar gyfer swyddi medrus gwerth uchel, er mwyn i'n pobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol ffynnu. Bydd y Cynllun Twf yn mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen er mwyn darparu'r tir cyflogaeth a thai yr ydym ei angen ynghyd â buddsoddi yn y Porthladd yng Nghaergybi.

Drwy fuddsoddi yn awr, bydd y Cynllun Twf yn adeiladu **gwytnwch** ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Gogledd yn **gysylltiedig** fel rhanbarth. Mae'r bartneriaeth ar draws y chwe awdurdod lleol, y prifysgolion, y colegau a'r sector preifat wedi'i hen sefydlu ac yn cryfhau o hyd. Bydd y Cynllun Twf yn gyrru newid cyfeiriad mewn cysylltedd digidol drwy gydbwysu buddsoddiad mewn isadeiledd a thechnoleg. Bydd y Cynllun Twf yn cyfarch yr ardaloedd hynny sydd angen cysylltiadau band eang cyflymach a mwy dibynadwy fwyaf a gwneud y mwyaf o botensial mynediad i 5G ac arloesedd digidol newydd. Mae cyfleoedd hefyd yn bodoli yng nghysylltiadau agos y rhanbarth gyda'r economïau cyfagos megis Cynghrair Merswy Dyfrdwy, Pweryd'r Gogledd, Iwerddon a Chanolbarth Cymru. Drwy weithio gyda'n gilydd, bydd y Cynllun Twf yn adeiladu economïau cryfach.

Bydd y Cynllun Twf yn cryfhau ein henw da fel rhanbarth cydlynus; rhoi lifer i'n partneriaethau i hyrwyddo twf yn yr economi sy'n gynaliadwy, yn gynhwysol ac y gellir ei ymestyn. Mae'r Buddsoddiad mewn prosiectau ynni carbon isel yn galluogi i'r rhanbarth gyfrannu'n uniongyrchol i'r argyfwng newid hinsawdd, gan helpu i wneud y Gogledd yn amgylchedd glanach, gwyrddach, ond hefyd gan leoli'r Gogledd fel un o'r lleoliadau arweiniol yn y DU o fewn y sector ynni carbon isel. Heb anghofio'r economïau sylfaen o fewn amaeth a thwristiaeth, bydd y Cynllun Twf yn helpu i alluogi ac annog arallgyfeirio i wella dyfodol hir-dymor y diwydiannau allweddol hyn, gan sicrhau bod ganddynt y cyfle i ddatblygu'n gynaliadwy a ffynnu.

Bydd y Cynllun Twf yn buddsoddi mewn ffordd sy'n hyrwyddo gwerth cymdeithasol ac yn adeiladu cyfoeth yng nghymunedau'r rhanbarth. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r rhwymedigaeth i gyflawni'r Cynllun Twf mewn ffordd sy'n gwella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

Y Rhanbarth

Adwaenir y Gogledd am ei dirweddau prydferth, ei hanes, ei dreftadaeth, ei ddiwylliant ac mae ganddo'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ar tua 41.9%¹.

Mae'r Gogledd yn gartref i bron i 700,000 o drigolion ac mae'n cyfrannu £14.2 biliwn i economi'r DU bob blwyddyn,² gan gynrychioli 22% o economi Cymru.³ Yn y Gogledd, rhagamcanir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 2.1 y cant yn y cyfnod o 2018-2028, a 3.1 y cant yn y cyfnod o 2018-2038. Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn y Gogledd.

Yn 2018, y cyfanswm GVA yn y Gogledd oedd £14,239 miliwn, 4.1 y cant yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, a oedd yn cyfrif am 21.9 y cant o gyfanswm GVA Cymru (£65,089 miliwn) a 0.8 y cant o gyfanswm GVA y DU (£1,892,681 miliwn) yn y flwyddyn honno.⁴ Yn y Gogledd, mae **amrywiaethau eang mewn GVA y pen, gyda chynhyrchedd penodol wan yn Ynys Môn (53% o gyfartaledd y DU), ond gyda pherfformiad cryfach yn Sir y Fflint a Wrecsam (y ddau yn 81% o gyfartaledd y DU).⁵ Mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn enillion cyfartalog, sydd ymhell o gyfartaledd y DU. Yn wir, mae enillion cyfartalog rhai awdurdodau lleol yn y Gorllewin ymhlith yr isaf yng Nghymru a'r DU. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2018, y Gogledd oedd â'r gyfradd cyflogaeth uchaf a'r cyfraddau diweithdra a segurddod economaidd isaf o holl ranbarthau Cymru⁶. Fodd bynnag, mae mwy o angen yn y rhanbarth am gyfleoedd cyflogaeth gwerth uchel.**

Mae gan y Gogledd nifer o ardaloedd sydd o fewn y 10% uchaf o ardaloedd sydd fwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae nifer o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ein hardaloedd gwledig.

Mae bwlch cynhyrchedd parhaus a chynyddol yn dal i fodoli rhwng y Gogledd a'r DU gydag amrywiadau eang yn y GVA (Gwerth Ychwanegol Crynswth) y pen ledled y rhanbarth. Mae mynd i'r afael â'r bwlch cynhyrchedd a'r anghyfartaledd hwn yn flaenoriaeth bwysig i'r Cynllun Twf.

1 Llywodraeth Cymru – Ystadegau cryno ar gyfer rhanbarthau economaidd: gogledd Cymru, Mai 2020

2 Mesurwyd gan Werth Ychwanegol Crynswth (GVA). Ffynhonnell: ONS, data 2018.


3 <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Regional-Accounts/Gross-Value-Added-GDP/gva-by-measure-welsh-economic-region-year>

4 <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Regional-Accounts/Gross-Value-Added-GDP/gva-by-measure-welsh-economic-region-year>

5 <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Regional-Accounts/Gross-Value-Added-GDP/gvaperhead-by-area-year>

6 Llywodraeth Cymru – Ystadegau cryno ar gyfer rhanbarthau economaidd: gogledd Cymru, Mai 2020

Mae economi'r Gogledd yn amrywiol a'r sectorau allweddol yw gweithgynhyrchu, ynni a thwristiaeth yn ogystal â swyddi yn y sector cyhoeddus. Mae'r sector cyhoeddus yn cyfrif am bron i chwarter (24.7%) o GVA y rhanbarth. Mae gweithgynhyrchu yn cyfrif am 1/5 (20.3%) o'r economi, sy'n llawer pwysicach yng Ngogledd Cymru nag yng Nghymru'n gyffredinol (lle mae'n cyfrif am 17% o GVA). Mae cyfanwerthu a manwerthu, trafnidiaeth, gwestai a'r sector bwyd yn cyfrif am 17% o economi'r Gogledd. Mae'r siart isod yn dangos dadansoddiad GVA yn ôl diwydiant yn y Gogledd ers 2018⁷



Mae cyfran o'r bwloch cynhyrchedd yn cael ei briodweddu gan strwythur sectorau economi'r Gogledd, gyda rhai ardaloedd yn benodol ddibynol ar sectorau sydd â chyflogau cymharol isel, gan gynnwys twristiaeth a manwerthu. Ar yr un pryd, mae rhai cryfderau, gyda 64,000 o bobl yn gyflogedig mewn *sectorau gwerth uchel*, a ddiffinnir fel gweithgynhyrchu, gwybodaeth a chyfathrebu; a gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol.

Mae cefnogi sectorau gwerth uchel ac ymdrin â'r rhwystrau hir-dymor i dwf wrth galon y Cynllun Twf.

Mae poblogaeth sy'n heneiddio ledled y rhanbarth a thraddodiad o doniau yn symud allan o'r rhanbarth. Er y disgwylir i boblogaeth y Gogledd gynyddu i 722,317 erbyn 2039, mae disgwyl i gyfran y boblogaeth sy'n 65 oed neu hŷn gynyddu o 23.6% o 29.8%. Mae hyn yn golygu cyfran lai o bobl oedran gweithio, a allai roi pwysau ar y cyflenwad sgiliau.

Roedd y gyfradd cyflogaeth ymysg trigolion oedran gweithio yn y Gogledd yn 75.9% ym mis Mawrth 2020, oedd yr un fath â'r DU. Dros 5 mlynedd, rhwng mis Mawrth 2015 a mis Mawrth 2020, ychwanegwyd 18,300 o swyddi i'r economi, twf o 6.2 y cant ar gyfer y

7 Ffynhonnell: ONS.

rhanbarth. Amlinellir effeithiau penodol COVID-19 ar economi'r Gogledd a'r Cynllun Twf yn yr adran nesaf.

Yr achos dros newid

Mae'r adran hon yn nodi'r heriau a'r cyfleoedd ar draws y sectorau allweddol yn economi'r Gogledd y mae'r Cynllun Twf yn ceisio mynd i'r afael â nhw:

Gweithgynhyrchu gwerth uchel

- **Cefnogi arloesedd ac ymchwil a datblygu:** mae angen am gyfleusterau a chefnogaeth dechnegol â busnesau unigol yn methu â chael mynediad at y sgiliau a'r arbenigedd i arloesi a gwella cynhyrchedd drwy arbedion effeithlonrwydd.
- **Cefnogi'r agenda carbon isel:** mae angen cryf i ddatgarboneiddio'r diwydiant er mwyn bodloni targedau cenedlaethol ar gyfer twf glân, ynghyd â gwneud y mwyaf o gyfleoedd yn y farchnad, gyda disgwyliad y bydd nifer y swyddi coler werdd yn tyfu i 2 filiwn a gwerth allforion y DU o'r economi carbon isel dyfu £170 biliwn bob blwyddyn erbyn 2030.
- **Integreiddio'r gadwyn gyflenwi:** Mae disbyddiad cynyddol neu 'gafnu' yn y gadwyn gyflenwi sydd wedi'i lleoli yng Nghymru ac yn y DU dros ddegawdau diweddar yn cyflwyno bygythiad hirdymor i'r galluedd cynhyrchu a gweithgynhyrchu a'i ffyniant yn y dyfodol. Mae angen ail-adeiladu a chynnal busnesau bach a chanolig eu maint o fewn cadwyni cyflenwi i yrru'r elfen gystadleuol.
- **Gwella cynhyrchedd:** Mae sectorau gweithgynhyrchu uwch y Gogledd yn sectorau cynhyrchedd uchel cymharol yn yr economi, ond mae potensial mawr i gynyddu cynhyrchedd drwy dargedu buddsoddiadau mewn ymchwil a datblygu a sgiliau.

Bwyd-amaeth a thwristiaeth

- **Buddsoddiad sydd ei angen mewn Ymchwil a Datblygu ac Arloesedd:** Mae data'r Cyngor Ymchwil Peirianeg a Gwyddorau Ffisegol (EPSRC) yn awgrymu mai dim ond 2% (tua £95 miliwn) o'r holl grantiau sy'n cael eu cynnig sydd wedi'u cyfeirio at y sector Bwyd a Diod. Roedd y gwariant ar ymchwil a datblygu ar draws y sectorau hyn gyfwerth â 1.3% o'r holl wariant ar ymchwil a datblygu ar draws yr holl sectorau yn y DU (yn 2018) er bod y sectorau hyn yn cyfrif am 10% o gyfanswm cyflogaeth.
- **Cefnogi'r rhaglen carbon isel ar draws Cymru a'r DU:** O safbwynt amgylcheddol, mae lleihau allyriadau carbon yn hanfodol i gynnaladwyedd Cymru yn y dyfodol a chafodd hyn ei gydnabod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n gosod targed i leihau allyriadau. Gallai cyflwyno ymarferion rheoli tir carbon isel cynaliadwy, ynghyd â gyrru arloesedd a thechnolegau carbon isel newydd yn y sector amaethyddiaeth gyfrannu at y rhaglen carbon isel hirdymor.
- **Gwella cynhyrchedd:** Yn 2017, roedd yr allbwn gros fesul hectar o dir amaethyddol yn £858 yng Nghymru, sy'n sylweddol is na rhanbarth mwyaf cynhyrchiol y DU, sef De Ddwyrain Lloegr (£3,190 fesul hectar). Mae'r ffigyrau'n dangos bod gwerth allbwn gros yr hectar o dir amaethyddol yng Nghymru yn is na'r holl ranbarthau eraill yn Lloegr, ac yn is na Gogledd Iwerddon (£2063 yr ha), ond yn uwch na'r Alban (£514 yr

ha). Mae'r sector twristiaeth hefyd yn dioddef o lefelau cynhyrchedd is na'r rhai a welir yn Lloegr, gyda GVA fesul gweithiwr yn y sector twristiaeth gyfystyr â £19,600; 14% yn is na'r metrig cyfatebol yn Lloegr.

- **Cwrdd ag anghenion sgiliau:** Awgrymodd yr Arolwg Sgiliau Cyflogwr diweddaraf bod 25% o fwytai a gwestai yng Nghymru wedi adrodd am ddiffyg sgiliau a 45% o fusnesau mewn prif ddiwydiannau (sy'n cynnwys amaethyddiaeth). Hefydd, fe wnaeth y ddau sector adrodd am gynnydd mewn bwch sgiliau o'r arolwg blaenorol, gyda gwestai a bwytai yn adrodd am +3% o gynnydd, a phrif ddiwydiannau'n adrodd am +28% o gynnydd.
- **Arallgyfeirio a gwytnwch:** y sectorau amaeth, bwyd a thwristiaeth yw asgwrn cefn nifer o economïau lleol yn y Gogledd. Gyda'r newid mewn ffynonellau ariannu hanesyddol y mae'r sector hwn yn ei wynebu gydag ymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd ar y gorwel, mae'n bwysig bod gan fusnesau gweledig gefnogaeth a gwybodaeth i'w helpu i arallgyfeirio.
- **Diffyg eiddo priodol:** Mae ymchwil a gynhaliwyd gan Arad ar gyfer Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon yn nodi bod y diffyg eiddo graddfa bwyd, cyfleusterau datblygu cynnyrch lleol a chefnogaeth dechnegol yn llesteirio potensial y sector, gyda busnesau unigol yn methu â chael mynediad at y sgiliau a'r arbenigedd i arloesi a gwella cynhyrchedd drwy arbedion effeithlonrwydd.

Ynni carbon isel

- **Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd:** Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru a nod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o gyflawni Sero Net erbyn 2050. Mae angen ddatgarboneiddio system ynni'r Gogledd, gan gynnwys cynhyrchu ynni, tai a thrafnidiaeth.
- **Cefnogi twf economaidd yn y sectorau ynni carbon isel:** ecsbloetio cryfderau lleol a manteision cystadleuol (e.e. seilwaith ynni presennol, cryfderau ymchwil a gweithlu medrus) i yrru twf yn y sector ynni carbon isel lle mae cyfleoedd twf sylweddol yn genedlaethol (rhagolygon y bydd y sector yn tyfu 11% y flwyddyn hyd 2030). Mae angen oddeutu £10.9bn o fuddsoddiad ychwanegol erbyn 2035 er mwyn rhoi'r rhanbarth ar y trywydd iawn i gyflawni Sero Net. Mae gan y lefel hon o fuddsoddiad y potensial i greu hyd at 24,400 o swyddi newydd.

Tir ac eiddo

- **Angen am ofod llawr cyflogaeth modern.** Mae'r rhwydwaith o safleoedd strategol parod, sydd â'r gallu i gefnogi twf busnesau cynhenid a mewnfuddsoddiad yn gymharol wan a darniog
- **Mae gwerth tir isel a chyfyngiadau seilwaith** wedi arwain at ddiddordeb annigonol gan ddatblygwyr, gan arwain at ddiffyg cyflenwad o dai ac eiddo masnachol. Hyd yma, mae'r farchnad wedi methu â mynd i'r afael â'r heriau hyn ac felly mae angen penodol am gyllid y Cynllun Twf fel bod modd cyflawni gofod cyflogaeth, tir preswyl wedi'i wasanaethu a gwelliannau i Borth Caergybi.

Cysylltedd digidol

- **Ymdrin â'r rhaniad digidol:** er mwyn i economi'r Gogledd ffynnu ac er mwyn i sectorau allweddol dyfu i'w llawn botensial; rhaid mynd i'r afael â bylchau arwyddocaol mewn cysylltedd. Mae angen cynyddu cysylltedd gigabit mewn safleoedd twf allweddol yn gyflym, sicrhau bod ardaloedd gwledig lle nad oes unrhyw gysylltedd yn cael eu taclo'n llawn, cyflawni cysylltedd symudol ar draws coridorau ac asedau economaidd a darparu'r sylfeini ar gyfer mwy o ecwiti a chynhwysiad cymdeithasol.
- **Ymateb i alw clir am well cysylltedd:** mae corff eang o dystiolaeth yn dangos yr angen rhagweledol am fand llydan sefydlog a symudol ar gyfer y ganrif nesaf a chost darpariaeth wael, perthnasol i rannau eraill o'r DU. Mae dyhead eithriadol i ddefnyddio technolegau mwy soffistigedig a defnydd arloesol, a fydd yn sicrhau cynhyrchedd, effeithiolrwydd a chystadleuaeth ledled y rhanbarth.
- **Creu amodau cystadleuol yn y farchnad:** Mae cysylltedd digidol y Gogledd wedi cael ei gyfyngu gan ddiffyg cystadleuaeth yn y farchnad ar lefel cyfanwerthu, ac o fewn graddfa'r newid a gynigir gan ddarparwyr band eang ar lefel manwerthu. Mae cyfle i ymateb i hyn drwy greu amodau sy'n gwella pa mor ddeniadol yw'r farchnad, lleihau costau defnyddwyr, cynyddu nifer y defnyddwyr terfynol a darparu'r sail ar gyfer buddsoddiad masnachol tymor hwy.
- **Sefydlu coridor digidol gyda'r gorau yn y byd:** yr A55 yw'r prif echel economaidd ar gyfer y Gogledd, yn cysylltu safleoedd allweddol, hybiau ar gyfer twf ac asedau mwyaf amlwg y rhanbarth. Mae cyfle yma i sicrhau bod 5G a band eang ffibr llawn yn creu coridor cyflymder uchel di-dor, fel sail ar gyfer defnyddio technoleg clyfar ar raddfa fawr, cynlluniau peilot a phrawf ac fel lifer i fewnfuddsoddiad.
- **Ymestyn y capasiti ymchwil digidol:** Mae gan y Gogledd broffil sy'n dod i'r amlwg fel sylfaen ar gyfer ymchwil arloesol ac sy'n cael ei arwain gan dechnoleg, dan arweiniad sefydliadau addysg uwch a'r sector preifat. Mae yma gyfle i fynd â hyn ymhellach, gan dynnu ar ffynonellau eraill o gyllid a bwriad busnes, gan greu màs critigol o dechnoleg, arbenigedd ac uchelgais i sicrhau bod y Gogledd ar flaen y gad o ran darganfod a defnyddio'r technolegau diweddaraf.

Effaith economaidd Covid-19

Mae Covid-19 wedi cael effaith economaidd syfrdanol ar y Gogledd, yn yr un modd â rhannau eraill o'r DU ac yn fyd-eang. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn gweithio'n agos gyda'r chwe awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr o'r sector preifat i gydlynu'r ymateb rhanbarthol i adfer yr economi.

Ni wyddwn beth fydd effeithiau tymor hwy Covid-19 ar yr economi rhanbarthol ar hyn o bryd, ond mae gwaith ar y gweill i ddiffinio cyflwr yr economi yn ystod yr hyn sydd wedi bod yn gyfnod heriol i fusnesau a gweithwyr ar draws sawl sector. Mae ansicrwydd yn sgil y pandemig a diwedd y cyfnod trosiannol ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd ill dau yn ffactorau sy'n cyfrannu.

Dyluniwyd rhaglenni'r Cynllun Twf i fod yn gadarn ac yn berthnasol i gyflawni twf economaidd hirdymor ar gyfer y rhanbarth. Er gwaethaf heriau Covid-19, mae themâu'r rhaglenni yr eir i'r afael â nhw yn dangos sut maent yn cyflawni gwerth i ddadwneud effeithiau pandemig Covid-19.

Digidol - nid yw'r galw a'r ddibyniaeth ar gysylltedd digidol i alluogi i bobl fyw eu bywydau bob dydd, gweithio a dysgu o gartref, cadw mewn cysylltiad ag anwyliaid, rhedeg busnesau a chael mynediad i wasanaethau cyhoeddus hanfodol erioed wedi bod yn fwy ac mae'n siŵr o barhau i dyfu.

Ynni carbon isel - bydd lleoli'r Gogledd fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi yn sicrhau cannoedd o swyddi newydd ar gyfer cenedlaethau i ddod. Mae chwarae rôl hanfodol wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd a chyflawni yn erbyn meysydd polisi'r llywodraeth wrth greu cymunedau mwy ffyniannus i'r rhanbarth yn hwylusydd cwbl allweddol i oresgyn Covid-19.

Tir ac eiddo - mae'r galw am ddatblygu tir ac eiddo wedi bod yn ansicr drwy gydol Covid-19. Mae buddsoddiad y Cynllun Twf yn rhoi ffocws ar safleoedd strategol allweddol a bydd yn adfywio'r sector adeiladu lleol ynghyd â chefnogi'r gwaith o ddatblygu porthladd Caergybi fel ased economaidd gwerthfawr i'r rhanbarth. Caiff y gofynion am ofod cyflogaeth ar bob safle eu hadolygu wrth i achosion busnes y prosiectau gael eu datblygu er mwyn ystyried unrhyw newid mewn galw ar ôl Covid-19, yn benodol yn ymwneud â gofod swyddfa.

Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth - Mae'r Cynllun Twf yn chwistrellu cyfalaf y mae gwir ei angen i brosiectau a fydd yn hwyluso arloesedd, addysgu busnesau ar fuddion datgarboneiddio, arallgyfeirio a modelau busnes cynaliadwy ac annog datblygu sgiliau a throsglwyddo gwybodaeth fel bod gan y Gogledd gynnig cynnyrch a gwasanaeth a all gystadlu gyda'r gorau yn y byd. Mae twristiaeth yn beiriant economaidd ar gyfer Cymru ac mae chwarter economi'r Gogledd wedi'i briodoli i dwristiaeth ac mae'r sector yn cyflogi 42,000 o bobl. Mae Covid-19 wedi cael effaith hunllefus ar fusnesau'r sector a'u gweithwyr a bydd y prosiect twristiaeth o fewn y rhaglen hon yn cael ei hadolygu i ystyried anghenion y sector ar ôl Covid-19.

Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel - Mae Gogledd Cymru yn lleoliad gweithgynhyrchu a pheirianeg mawr gyda chryfderau sylweddol yn y sectorau awyrfod, modur, bwyd, papur, electroneg ac ynni gwyrdd. Mae colledion swyddi sylweddol wedi'u cyhoeddi yn y sector a'r gadwyn gyflenwi yn sgil Covid-19 a'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae buddsoddiad y Cynllun Twf yn manteisio ar y rhwydwaith cryf o gwmnïau angori ac arbenigedd byd-eang er mwyn datblygu clwstwr gweithgynhyrchu uwch gwerth uchel a fydd yn gyrru cydweithio i hwyluso economi carbon isel, i ddod â busnesau a phrifysgolion ynghyd i hwyluso mabwysiadu technolegau arloesol newydd ac annog datblygu sgiliau mewn biotechnoleg, opteg, cyfansoddion a celloedd tanwydd hydrogen.

Mae partner economaidd annibynnol wedi'i gomisiynu i ddatblygu adroddiad a fydd yn crynhoi'r sefyllfa economaidd ac yn argymhell ymyriadau adfer ar gyfer y Gogledd. Mae data a ddefnyddir ar gyfer yr adroddiad yn cynnwys mewnwelediad o arolwg rhanbarthol diweddar o fusnesau, a ddenodd dros 1,800 o ymatebion ac adroddiad annibynnol ar dwristiaeth i adnabod y cryfderau, y gwendidau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r sector hwn. Bydd yr ymyriadau a argymhellir yn canolbwyntio ar adfer yr economi yn y tymor agos ond gan gydnabod pwysigrwydd y Cynllun Twf ar economi'r Gogledd yn yr hir-dymor a thrwy gydol oes y cynllun twf.

Ni all y Cynllun Twf ar ei ben ei hun fynd i'r afael â'r holl heriau sy'n wynebu economi'r Gogledd. Fodd bynnag, bydd y chwistrelliad sylweddol o fuddsoddiad cyfalaf i economi'r Gogledd o du'r Cynllun Twf yn hwb arwyddocaol i'r economi.

Y buddsoddiad

Bydd y buddsoddiad gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn gweithredu fel catalydd a sbardun i ddatgloi buddsoddiad a chynorthwyo adferiad yr economi yn y rhanbarth.

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo hyd at £120 miliwn yr un i'r buddsoddiad (cyfanswm o £240 miliwn) dros y 15 mlynedd nesaf, gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru hefyd yn ymrwymo i sicrhau buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat pellach i gyflawni buddsoddiad cyffredinol o £1biliwn.

Drwy Gynllun Twf Gogledd Cymru, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a'u partneriaid yn dechrau perthynas strategol newydd sy'n creu gwaddol hirhoedlog a fydd yn trawsffurfio'r rhanbarth yn yr hir-dymor gan gydlynu ar draws rhaglenni allweddol.

Dadansoddiad o'r cyllid ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru

Llywodraeth y DU	Llywodraeth Cymru	Sector Cyhoeddus Arall	Y Sector Preifat	CYFANSWM
£120m	£120m	£184.3m	£722.1m	£1.146.4b

Effaith y Cynllun Twf

Mae'r amcanion gwario a ganlyn wedi'u datblygu drwy greu achosion busnes portffolio a phum rhaglen i gefnogi'r rhanbarth i sicrhau'r Cytundeb Terfynol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.


Amcan Gwariant 1 - Swyddi	Creu 3,800 o swyddi newydd net yn y Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036.
Amcan Gwariant 2 - GVA	Cefnogi cynnydd ychwanegol net o £2.2 biliwn mewn GVA i Economi'r Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036.

Amcan Gwariant 3 - Buddsoddiad

Cyflawni cyfanswm o hyd at £1.1 biliwn o fuddsoddiad yn Economi'r Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036.

Bydd holl raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion gwariant uchod. Bydd pob un o'r rhaglenni yn cynhyrchu cyfres o fuddion sydd wedi cael eu dosbarthu fel buddion uniongyrchol, anuniongyrchol ac ehangach. Mae union natur y rhain yn amrywio rhwng y rhaglenni. Mae'r prif fathau yn cael eu crynhoi isod, yn ôl rhaglen.

Ffigwr 1.1 Fframwaith Buddion



Ffynhonnell: Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

4. Rhaglenni'r Cynllun Twf

Nod y Cynllun Twf yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd, gan adeiladu ar gryfderau'r rhanbarth i roi hwb i gynhyrchedd wrth fynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hir-dymor i gyflawni twf cynhwysol. Ein dulliau gweithredu yw hyrwyddo twf mewn ffordd gynhwysol, gynaliadwy, y gellir ei ymestyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae'r Cynllun Twf yn seiliedig ar gyflawni pum rhaglen. Mae'r rhaglenni wedi'u diffinio fel naill ai rhaglenni twf uchel neu raglenni hwyluso. Gellid gweld rhagor o fanylion am y Rhaglenni yn Atodiad 1.

Sectorau Twf Uchel i yrru cynhyrchedd yn y rhanbarth

Bydd y prosiectau o fewn y Cynllun Twf wedi'u hanelu at gynyddu gwerth ac effaith y sectorau twf uchel yn canolbwyntio ar dair prif raglen:

- **Rhaglen Ynni Carbon Isel;**
- **Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel;**
- **Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth.**

Mynd i'r afael â'r rhwystrau allweddol i hwyluso a chyflawni twf economaidd

Rydym wedi adnabod sectorau hwyluso i fynd i'r afael â rhwystrau economaidd allweddol a rhoi sylw i faterion strwythurol sydd wedi cael effaith ar gynhyrchedd a swyddi. Bydd cyflawni yn y sectorau hyn yn creu'r amodau priodol i fusnesau fuddsoddi yn y rhanbarth ac i'r farchnad lafur gymryd mantais ar gyfleoedd cyflogaeth newydd. Byddwn yn defnyddio dulliau mwy strategol gyda'r buddsoddiadau hyn, gan sicrhau eu bod wedi'u targedu'n dda er mwyn hwyluso twf economaidd a thwf mewn cyflogaeth ledled y rhanbarth. Gwneir hyn mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol, yn enwedig Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Mae'r prosiectau o fewn y Cynllun Twf i fynd i'r afael â rhwystrau allweddol i dwf yn canolbwyntio ar ddwy raglen allweddol:

- **Rhaglen Tir ac Eiddo**
- **Rhaglen Ddigidol**

Drwy ganolbwyntio ar gyflawni'r rhaglenni hyn ar y cyd, bydd y Cynllun Twf yn llwyddo i gael effaith well yn nhermau ein huchelgais a'n defnydd o adnoddau na phrosiectau unigol.






Bydd pob un o'r rhaglenni a'r prosiectau o fewn y Cynllun Twf yn cyfrannu at gyflawni'r Weledigaeth Twf a chyflawni buddion i'r Gogledd. Bydd y buddion o'r Cynllun Twf yn cefnogi twf cynaliadwy a chynhwysol ledled y rhanbarth - yn unol â'r Weledigaeth Twf ynghyd â blaenoriaethau Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Gweler isod grynodedb o'r amcanion strategol i roi sylw iddynt ymhob rhaglen, a'r mathau o ymyraethau y maent yn bwriadu eu hwyluso:

Rhoglen Ynni Carbon Isel

Amcan Strategol:
Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.

Amcanion Gwariant

 <p>CREU SWYDDI Creu rhwng 800 ac 980 o swyddi erbyn 2036</p>	 <p>GVA Creu GVA ychwnaegol net o £433- 530m erbyn 2036</p>	 <p>BUDDSODDIAD Cyfanswm buddsoddiad o rhwng £602-£735m drwy'r rhaglen erbyn 2036</p>	 <p>CYNHYRCHU YNNI CARBON ISEL Galluogi'r defnydd o 314MW o gapasiti cynhyrchu ynni carbon isel sydd wedi'u gosod o'r newydd drwy'r rhaglen erbyn 2036</p>	 <p>ARBEDION CARBON Galluogi arbedion carbon o 2723 tonnelli o CO2e o leiaf drwy'r rhaglen erbyn 2036</p>
---	---	---	--	---

Rhoglen Tir ac Eiddo

Amcan Strategol:
Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai a chyflawni gwelliannau a fydd yn sbarduno buddsoddiad ym Mhorthladd Caerdybi a'r rhanbarth ehangach. Bydd gan y prosiectau hyn rôl hwyluso ar gyfer y rhaglenni eraill drwy sicrhau bod safleoedd wedi'u gwasanaethu ar gael i fuddsoddwyr a datblygwyr.




Amcanion Gwariant

 <p>CREU SWYDDI Creu rhwng 1,870 ac 2,280 o swyddi erbyn 2036</p>	 <p>GVA Creu GVA ychwnaegol net o £1.06-£1.29bn erbyn 2036.</p>	 <p>BUDDSODDIAD Buddsoddiad o rhwng £320m- £390m erbyn 2036</p>	 <p>SAFLEOEDD AC EIDDO CYFLOGAETH Cyflawni 30ha o dir ac 20,000 medr sgwar o eiddo cyflogaeth rhwng 2021 a 2026</p>	 <p>SAFLEOEDD PRESWYL Cyflawni dros 1,000 o leiniau datblygu preswyl rhwng 2021 a 2026</p>	 <p>PORTH CAERDYBI Adennill tir, gwaith diogel ac ymestyn oes y morklawdd, gwelliannau mynediad a gwelliannau i gapasiti'r porthladd</p>
---	---	---	---	--	--

Rhoglen Ddigidol

Amcan Strategol:
Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall y Gogledd gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. Chwarae rôl hwyluso ar gyfer rhaglenni eraill i gyflawni'r budd mwyaf bosib.

Amcanion Gwariant

 <p>CREU SWYDDI Creu rhwng 315 a 380 o swyddi drwy y rhaglen erbyn 2036</p>	 <p>GVA Creu GVA ychwanegol net CVA o £130-£158m drwy'r rhaglen erbyn 2036</p>	 <p>BUDDSODDIAD Buddsoddiad o rhwng £37- £46m drwy'r rhaglen erbyn 2036</p>	 <p>CADARN A CHYSTADLEUOL MARCHNAD CYSYLLTEDD MEWN SAFLEOEDD ALLWEDDOL Cyflwyno marchnad cysylltedd gadarn a chystadleuol mewn 28 o safle strategol i gyd-fynd â tharged Llywodraeth y DU o ddarpariaeth galledd gigabit erbyn 2025, neu cyn hynny.</p>	 <p>GWASANAETH SYMUDOL LLED BAND UCHEL AR RWYDWEITHIAU TRAFNIDIAETH Cyflwyno darpariaeth symudol lled band uchel ar rwydweithiau trafniadaeth gyda defnydd yn cyd-fynd â tharged Llywodraeth y DU o ddarpariaeth 5G erbyn 2027, neu cyn hynny. Darpariaeth ar draws yr A55, yr A483, yr A5.</p>	 <p>CYSYLLTEDD DIGIDOL CYFLYM IAWN YM MHOBMAN Sicrhau bod gan yr holl eiddo preswyl yn y rhanbarth gysylltedd band eang cyflym iawn yn y tymor byr (erbyn 2023) gyda galledd uwchraddio gigabit wedi'i gynnwys gyhyd ag sy'n bosib.</p>	 <p>ARLOESODD SEILWAITH DDIGIDOL Sicrhau bod y rhanbarth wedi'i rymyso i gymryd rhan mewn arloesedd a masnachol technoleg isadeiledd digidol newydd i gyflawni a chydgrynhol rôl tymor hir mewn diwydiant sy'n bwysig yn strategol.</p>
---	--	---	---	---	---	---

Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu gwerth uwch

Amcan Strategol:

Cyferthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel.

Amcanion Gwariant



CREU SWYDDI
Creu rhwng 145 ac 180 o swyddi erbyn 2036



GVA
Creu GVA ychwanegol net o £94m ac £114m erbyn 2036.



BUDDSODDIAD
Buddsoddiad o rhwng £36m ac £43m erbyn 2036



HWYLUSO SYMUDIAD AT ECONOMI CARBON ISEL DRWY YMCHWIL AC ARLOESIEDD I GEFNOGI DATGARBONEIDDIO A LLEIHAU GWASTRAFF

Cydweithio gyda 55 o bartneriaid y diwydiant neu fusnesau bach a chanolig eu maint i gynorthwyo i ddatblygu technolegau carbon isel neu leihau gwastraff.



YMESTYN INTEGREIDDIAID ECONOMAIDD RHWNG PRIFYSGOLION A BUSNESAU RHANBARTHOL I HWYLUSO MABWYSIADUR DECHNOLEG

Cefnogi a hwyluso tri phrosiect ymchwil a datblygu cydweithredol y flwyddyn i'w datblygu a thechnolegau newydd.



ANNOG DATBLYGU SGILIAU A THROSLWYDDO GWYBODAETH

Darparu hyfforddiant ac uwchsgilio i 100 o bobl/busnesau yn y technolegau a dargedir dros y pum mlynedd cyntaf.

Rhaglen Bwyd Amaeth a Thwristiaeth

Amcan Strategol:

Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd.

Amcanion Gwariant



CREU SWYDDI
Creu rhwng 310 ac 380 o swyddi erbyn 2036



GVA
Creu GVA ychwanegol net o £230m ac £281m erbyn 2036.



BUDDSODDIAD
Buddsoddiad o rhwng £37m ac £45m erbyn 2036



DATGARBONEIDDIO A MODELAU BUSNES CYNALIADWY

Addysgu busnesau ar fuddion datgarboneiddio, arallgyfeirio a modelau busnes cynaliadwy. 300-400 o fusnesau yn arallgyfeirio o'r gweithrediad craidd traddodiadol neu'n mabwysiadu technoleg/ymarferion newydd o fewn pum mlynedd gyntaf y rhaglen.



ARLOESIEDD A CHYNHYRCHEDD

Darparu hyd at 4,000-6,000m2 o ofod llawr egino, ymchwil a datblygu a hyfforddiant i gynorthwyo annog arloesedd, hyrwyddo uwch-sgilio a chefnogi twf busnes yn y sector bwyd-amaeth a thwristiaeth.



TROSLWYDDO SGILIAU A GWYBODAETH

Darparu sgiliau arbenigol a darpariaeth hyfforddiant ar y cyd â chyfleoedd i gydweithio ar gyfer busnesau, darparwyr addysg a sefydliadau ymchwil. Darparu hyfforddiant ychwanegol i 2,500 o bobl/busnesau



CYFLEOEDD CADWYN GYFLENWI LLEOL

Cynyddu'r % o contractau cyflenwi a gyflawnir drwy'r rhaglen gyda busnesau sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru - gwaelodlin i'w gytuno.

5. Strwythur Lywodraethol

Mae trefniadau llywodraethu'r Cynllun Twf yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud mewn modd agored a thryloyw er budd y rhanbarth cyfan. Mae'r adran hon yn manylu ar y trefniadau hyn a sut maent yn cyfrannu at reoli'r rhaglen a'r risgiau cysylltiedig.

Rhestrir yn Atodiad 2 y dogfennau llywodraethu ychwanegol a fydd yn berthnasol i gyflawni'r Cynllun Twf dros y 15 mlynedd. Unwaith y bydd wedi'i fabwysiadu, bydd angen i'r partïon perthnasol gytuno ar unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau i'r prosesau a'r protocolau hyn.

Sefydlwyd y Bwrdd Uchelgais gan bartneriaid awdurdodau lleol fel cyd-bwyllgor yn 2019 a hwn yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer y Cynllun Twf. Yn ogystal, mae iddo rôl ehangach i arwain cydweithio rhanbarthol yn fwy cyffredinol. Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Uchelgais wedi'u tanategu gan y cytundeb partneriaeth 'Cytundeb Llywodraethu 2' sydd i'w fabwysiadu wrth gwblhau'r Cynllun Twf Terfynol.

Mae gan Lywodraethau Cymru a'r DU gysylltiadau â'r strwythur llywodraethu yn ffurfiol ac yn anffurfiol.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r Bwrdd Uchelgais wedi cytuno i fabwysiadu Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd Cynlluniau Twf a Bargeinion Dinesig.

Mae'r dull gweithredu hwn yn seiliedig ar ddefnyddio Rheolaeth Rhaglenni a Phrosiect ac arfer gorau o ran Llywodraethu a Sicrwydd yn briodol ac yn gymesur, wedi'u tanategu gan Gynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP) er mwyn cydbwysu trosolwg y Llywodraeth a gofynion y Partner Cyflawni Rhanbarthol.

Cydnabyddir y gall fod angen mireinio'r Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd o bryd i'w gilydd. Bydd Bwrdd Gweithredu Twf a Dinesig Cymru yn adolygu'r fframwaith fel bo'r angen.

Cytundeb Llywodraethu 2

Wedi sicrhau'r Cynllun Twf, mae Partneriaid y Bwrdd Uchelgais wedi cytuno i ymrwmo i ail Gytundeb Llywodraethu ("GA2") a fydd yn cefnogi'r bartneriaeth i wedd nesaf gweithredu'r Cynllun Twf a datblygu'r Weledigaeth Twf ymhellach.

Mae'r cytundeb, sy'n ddogfen sydd wedi'i rhwymo mewn cyfraith, yn diffinio rôl a swyddogaeth y Bwrdd Uchelgais, a'i ddefnydd o bwerau dirprwyedig. Yn ogystal, mae'n darparu ar gyfer ei strwythurau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd democrataidd. Gwneir darpariaeth ar gyfer ymrwymadau partneriaid y Bwrdd Uchelgais i'r prosiectau a sut caiff y rhain eu rheoli a'u dosrannu. Mae GA2 yn rhoi sicrwydd i'r Awdurdod Lletya (sef "Cyngor Gwynedd" gan weithredu fel cynrychiolydd yr awdurdodau lleol ar y cyd, a'r prif ryngwyneb gyda'r Llywodraethau), wrth gymryd y rôl honno. Yn ogystal, rhoddir sylw i'r trefniadau gwaelodol sy'n darparu ar gyfer materion cyfreithiol a chydymffurfio a'r trefniadau rhwng y partïon GA2 (gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, llywodraethu'r Swyddfa Rheoli Portffolio).


Mae'n ddogfen allweddol, sy'n rhoi strwythur a sylfaen glir, er mwyn bwrw ymlaen â gweithredu'r Cynllun Twf ar lefel ranbarthol.

Trefniadau Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau

Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi mabwysiadu model cyflawni sy'n seiliedig ar ddull arfer gorau ar gyfer rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau fel sydd wedi'i nodi yn '*Government Functional Standard GovS 002: Project Delivery*'. Mae rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau yn ffordd integredig o fodloni uchelgeisiau'r sefydliad, gan annog gwell penderfyniadau a chynyddu'r tebygolrwydd o gael deilliannau llwyddiannus.

Mae'r diagram isod yn amlinellu strwythur cyflawni llywodraethu rheoli rhaglen a phrosiect y Bwrdd Uchelgais ar gyfer y Cynllun Twf:

Ffigur 1.2 Strwythur Cyflawni'r Cynllun Twf



Ffynhonnell: Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Lefel Strategol a Phortffolio

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Grŵp Ariannu) - Mae'r Bwrdd Uchelgais yn gweithredu fel Grŵp Ariannu (Sefydliad) a'r Corff Gwneud Penderfyniadau. Mae'r holl hawliau dan y lefel hon wedi'u dirprwyo i bartïon perthnasol fel sydd angen drwy benderfyniad ffurfiol gan y Bwrdd Uchelgais. Bydd aelod o'r Bwrdd yn cymryd rôl Aelod Arweiniol ar gyfer pob un o'r rhaglenni ac yn eistedd ar y Bwrdd Rhaglen perthnasol. Y Bwrdd Uchelgais fydd yn gyfrifol am ystyried a chymeradwyo achosion busnes prosiectau o fewn y portffolio a bydd y cyfrifoldeb am gyflawni'n cael ei ddirprwyo i'r byrddau rhaglen a phrosiect perthnasol.

Grŵp Cefnogaeth Weithredol (Bwrdd Portffolio) - Y grŵp hwn yw'r corff ymgynghorol i'r Bwrdd Uchelgais ond mae hefyd yn gweithredu fel y Bwrdd Portffolio ar gyfer y Cynllun Twf i gefnogi a herio Cyfarwyddwr Portffolio'r Cynllun Twf i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni. Mae uwch swyddogion o bob un o bartneriaid y Bwrdd Uchelgais yn gwasanaethu ar y grŵp. Bydd aelod o'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol yn gweithredu fel Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) ar gyfer pob un o'r rhaglenni ac yn arwain y Bwrdd Rhaglen perthnasol.

Y Cyfarwyddwr Portffolio - Mae'r Cyfarwyddwr Portffolio yn atebol i'r Bwrdd Uchelgais ar gyfer cyflawni portffolio'r Cynllun Twf.

Lefel Rhaglenni a Phrosiectau

Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) - Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cefnogi ac yn cydlynu gweithgareddau ar draws y rhaglenni gan weithredu fel hwb gwybodaeth a sicrhau bod dulliau adrodd, rheoli risg a materion yn gyson. Yn ogystal, mae'n gweithredu fel rôl sicrwydd werthfawr, gan roi cyngor a her i raglenni a phrosiectau. Aseinir Rheolwr Rhaglen ar gyfer pob rhaglen o blith y PMO.

Byrddau Rhaglen - Bydd gan bob rhaglen Fwrdd Rhaglen ffurfiol ac Uwch Berchennog Cyfrifol wedi'i benodi. Bydd y byrddau hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu (i ddechrau) a chyflawni Achos Busnes cytûn y Rhaglenni, gyda ffocws penodol ar y buddion a'r deilliannau i'w cyflawni. Mae'r Byrddau Rhaglen yn dyrchafu i'r Bwrdd Portffolio drwy'r Cyfarwyddwr Portffolio.

Byrddau Prosiect - Bydd yr holl brosiectau o fewn y Cynllun Twf yn cael eu rheoli drwy Fwrdd Prosiect, gydag Uwch Berchnogion Cyfrifol a rheolwyr prosiect yn eu lle i sicrhau cyflawniad. Bydd y byrddau hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu a chyflawni Achos Busnes cytûn y Rhaglenni, gyda ffocws penodol ar y buddion a'r deilliannau i'w cyflawni. Y Partner Arweiniol fydd yn gyfrifol am y Prosiectau a'r Byrddau Prosiect a bydd trefniadau clir ar gyfer cyflawni prosiectau yn unol ag arferion gorau yn cael eu nodi yn achos busnes pob prosiect. Bydd prosiectau yn adrodd i'r Bwrdd Rhaglen perthnasol. Cytunir ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer Byrddau Prosiect rhwng y Partner Arweiniol a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i sicrhau bod y ddau barti'n deall y cysylltiadau priodol a'r trefniadau adrodd rhwng y prosiect a'r Bwrdd Rhaglen.

Rheolau Sefydlog, dirprwyo hawliau a chylch gorchwyl

Mae Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i sefydlu gan y Bwrdd Uchelgais er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf. Cânt eu cyflogi gan Gyngor Gwynedd fel y Corff Atebol ac maent yn gweithredu i'w safonau, eu gweithdrefnau a'u polisiau.

Fel y Corff Atebol, bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn ac yn gweinyddu cyllid y Cynllun Twf, a gaiff ei dderbyn yn flynyddol mewn rhandaliadau o hyd at £16m dros dymor 15 mlynedd y Cynllun Twf.

Ymrwymir y cyllid drwy'r llythyr dyfarnu cyllid, a anfonir i'r Corff Atebol, Cyngor Gwynedd, gan yr Adran Tai a Llywodraeth Leol o fewn Llywodraeth Cymru. Bydd y Corff Atebol yn llofnodi'r llythyr hwn ar ran y Bwrdd Uchelgais a bydd y cylch blynyddol o randaliadau yn dechrau, yn amodol ar gydymffurfio â thelerau ac amodau y cytunwyd arnynt yn y llythyr dyfarnu cyllid.

Bydd rhyddhau'r rhandaliadau cyllid blynyddol yn dilyn y broses sydd wedi'i hamlinellu yn Atodiad 3 - Proses Cymeradwyo Cyllid Flynyddol a bydd yn ddarostyngedig i sicrwydd a monitro boddhaol fel y nodir yn y Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP).

Caiff achosion busnes prosiectau eu cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais a byddant yn arddangos dichonolrwydd, hyfywedd a'r gwerth am arian sydd ei angen o fewn y fethodoleg a'r dull Gwell Achosion Busnes pum achos. Mae Cytundeb Llywodraethu 2 yn gosod yr hawl a ddirprwyir i'r Bwrdd Uchelgais gan y Sefydliadau Partner a pha hawliau sydd wedi'u dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio. Mae cylch gorchwyl y Bwrdd Uchelgais wedi'i gynnwys fel rhan o Gytundeb Llywodraethu 2.

Adnoddau

Mae Swyddfa Rheoli Portffolio'r Bwrdd Uchelgais wedi'i sefydlu er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf. Sefydlwyd y Swyddfa Rheoli Portffolio ym mis Ionawr 2020 ac am ei thair blynedd cyntaf caiff ai hariannu gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, ac wedi hynny bydd yn hunangynhaliol fel y nodir yr achos busnes portffolio. Mae'r swyddfa yn goruchwyllo'r gwaith o gyflawni rhaglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf. Dan arweiniad y Cyfarwyddwr Portffolio, mae'r tîm yn cynnwys rheolwyr prosiectau a rhaglenni profiadol, ynghyd â staff gweithredol. Cefnogir y tîm yn benodol gan adnoddau cyfreithiol ariannol a ddarperir drwy'r Corff Atebol ynghyd ag ystod eang o adnoddau ychwanegol a ddaw o'r holl bartneriaeth.

Y Broses Gwneud Penderfyniadau

Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn atebol am sicrhau'r defnydd mwyaf priodol o gyllid y Llywodraeth ar gyfer y Cynllun Twf.

Mae Llywodraeth y DU wedi dosrannu cyllid Cynlluniau Twf a Dinesig er mwyn i Lywodraeth Cymru ei weinyddu, gan ganiatáu i gyllid gan y ddwy Lywodraeth gael ei reoli a'i ryddhau drwy un broses gytunedig. Caiff y cyllid ei dalu i Gorff Atebol y Cynllun Twf (Cyngor Gwynedd) yn flynyddol dros oes y Cynllun Twf ar broffil gwastad.

Bydd monitro a gwerthuso cynnydd y Cynllun Twf yn weithgaredd parhaus a bydd angen adolygiad blynyddol o gynnydd cyn rhyddhau cyllid blynyddol. Gwneir hyn drwy asesiad o ystod o ddogfennaeth a chyflwyniad i Fwrdd Gweithredu Twf a Dinesig Cymru (WCGIB) gan y Swyddfa Rheoli Portffolio.

Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau cyllid i'r Cynllun Twf yn flynyddol. Bydd y penderfyniadau hyn wedi'u hysbysu gan argymhellion a wneir gan Fwrdd Gweithredu Twf a Dinesig Cymru (WCGIB).

Mae'r broses cymeradwyo cyllid flynyddol wedi'i hamlinellu yn Atodiad 3.

Tra bydd atebolrwydd cyffredinol am weinyddu'r cyllid yn gorwedd gydag Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, bydd angen i aelodau Bwrdd Gweithredu Twf a Dinesig Cymru sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol ag egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru⁸ (yn achos swyddogion Llywodraeth Cymru) a *Managing Public Money* Trysorlys Ei Mawrhydi⁹ (ar gyfer swyddogion Llywodraeth y DU). Mae hyn yn cynnwys yr angen i sicrhau eu hunain bod y defnydd o'r cyllid yn cynnig gwerth da am arian ac y caiff ei ddefnyddio â rheoleidd-dra a phriodoldeb dyladwy.

8 <https://llyw.cymru/rheoli-arian-cyhoeddus-cymru>

9 <https://www.gov.uk/government/publications/managing-public-money>

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn gosod protocol ar wahân fydd yn nodi agweddau penodol o'r Cynllun Twf, megis cyfrinachedd, diogelu data, datrys anghydfod a sicrwydd rhwng Llywodraeth Cymru a'r holl Bartneriaid yn y rhanbarth.

Y Bwrdd Uchelgais Economaidd

Mae partneriaid y Cynllun Twf wedi ymrwmo i osod prosesau gwneud penderfyniadau a rheolaeth ariannol cadarn er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n gyfrifol a bod atebolrwydd drosto. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn gyd-bwyllgor gweithredol Awdurdod Lleol ac, o'r herwydd, mae'n amodol ar ofynion mewn perthynas â thryloywder, atebolrwydd, safonau llywodraethu, gwneud penderfyniadau ac ymddygiad sy'n berthnasol i gorff o'r fath.

Gellir categorio penderfyniadau o fewn fframwaith llywodraethu'r Bwrdd Uchelgais ar dair lefel:

- **Materion i'r Cyfarwyddwr Portffolio** - penderfyniadau y gall y Cyfarwyddwr Portffolio eu gwneud
- **Materion i'r Cyd-bwyllgor** - penderfyniadau y gall y Bwrdd Uchelgais eu gwneud
- **Materion a gedwir yn ôl** - penderfyniadau a fyddai angen cytundeb ar wahân gan bob partner

Mae'r holl benderfyniadau sy'n ymwneud â chyflawni'r Cynllun Twf fel y'u nodir yn y ddogfen hon ac o fewn yr amlen ariannu gytûn ar gyfer y bartneriaeth naill ai'n faterion i'r Cyfarwyddwr Portffolio neu'n faterion i'r Cyd-bwyllgor.

Er bod y Bwrdd Uchelgais yn fel Cyd-bwyllgor, tra bydd gweithredu pleidlais drwy fwyafrif, bydd yn ceisio sefydlu consensws yr holl bartneriaid ynghylch yr holl benderfyniadau yn ymwneud â'r Cynllun Twf.

Cydnabyddir bod pwerau a dyletswyddau'r Bwrdd Uchelgais yn ymwneud â gweithgareddau sydd wedi'u nodi yn Gynllun Twf. Ni fydd y penderfyniadau a wneir gan bob partner cyfansoddol mewn perthynas â'i ymrwymadau ariannol ei hun yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais. Fodd bynnag, mae gan y Bwrdd Uchelgais yn gweithio gyda'r Corff Atebol, rôl monitro a sicrwydd mewn perthynas â chyllid y Cynllun Twf i sicrhau ei fod yn cael ei wario yn unol ag amcanion y Cynllun Twf.

Y Broses Sicrwydd

Mae sicrwydd yn darparu archwiliad annibynnol a gwrthrychol o bortffolio, rhaglen neu brosiect ar adeg benodol yn ei oes.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi cytuno i ddefnyddio Swyddfa Cyflawni Prosiectau (OPD) Llywodraeth Cymru neu unrhyw olynydd i'r OPD i sicrhau y cyflawnir safonau sicrwydd cyson ar draws portffolio'r Cynllun Twf. Mae hyn

y cefnogi pawb sy'n gyfrifol am gyflawni'n llwyddiannus, gan roi hyder i arianwyr a rhanddeiliaid eraill y gall y Cynllun Twf gyflawni ar amser, o fewn y gyllideb ac o ansawdd.

Rhaid i'r Cynllun Twf ymgymryd â sicrwydd addas a chynhyrchu a gweithredu Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP).

Mae IAAP yn nodi'r gweithgareddau Sicrwydd Llywodraethu ac Archwilio arfaethedig ar lefel Portffolio, Rhaglen a Phrosiect ar gyfer y Cynllun Twf. Mae IAAP wedi'i gytuno gan bob un o'r tri pharti cyn y Cytundeb Terfynol a bydd yn destun adolygiad blynyddol.

Mae Adolygiad Swyddog Cyfrifo (AOR) yn adolygiad sicrwydd Achos Busnes sy'n canolbwyntio ar gyflawni gwerth am arian o wariant cyhoeddus ac mae'n mynd i'r afael â'r cyfrifoldebau a roddir ar Swyddogion Cyfrifo.

Mae AOR wedi'i gwblhau fel rhan o brosesau sicrwydd y ddwy lywodraeth cyn y Cytundeb Terfynol hwn a gellid ymgymryd ag AORs pellach yn ystod tymor y Cynllun Twf.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cytuno i gydweithio wrth ddefnyddio proses AOR Llywodraeth Cymru ar gyfer Achos Busnes Portffolio'r Cynllun Twf. Mae'r AOR hwn yn rhan o'r Broses Gymeradwyo sydd ei hangen ar gyfer y Cytundeb Terfynol ar gyfer y Cynllun Twf.

Y broses cymeradwyo prosiectau

Cytunir ar y Cynllun Twf ar sail achos busnes y portffolio a phum achos busnes rhaglen. Unwaith y arwyddir y Cynllun Terfynol, gellir dwyn achosion busnes prosiectau ymlaen er ystyriaeth gan y Bwrdd Uchelgais.

Datblygir achosion busnes llawn (Model 5 Achos) ar gyfer pob prosiect o fewn y Cynllun Twf, yn unol â'r canllawiau 'Gwell Achosion Busnes' a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EM.

Mae'r gwaith o baratoi Achos Busnes Prosiect gan ddefnyddio'r model 5 achos yn rhoi fframwaith sydd wedi'i brofi i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a rhan-ddeiliaid, ar gyfer 'meddwl' strwythuredig a sicrwydd bod y prosiect yn darparu ac yn cyd-fynd yn strategol, yn gwneud y mwyaf o werth cyhoeddus, yn fasnachol hyfyw, yn fforddiadwy a bod modd ei ariannu dros amser.

Bydd gofyn i achosion busnes prosiect arddangos sut maent yn cyflawni yn erbyn amcanion a dyheadau'r Cynllun Twf ac yn benodol yn erbyn yr achos busnes rhaglen perthnasol.

Cydnabyddir, drwy ddatblygu a chytuno ar achosion busnes portffolio a rhaglenni rhwng y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau'r DU/Cymru, y bydd yr achos strategol ar gyfer prosiectau wedi cael ei sefydlu.

Bydd pob Achos Busnes Prosiect yn destun adolygiad porth annibynnol ar adegau y cytunir arnynt gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn unol â'r Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyaeth Integredig. Yn ogystal, gall Bwrdd Gweithredu Twf a Dinesig Cymru gomisiynu Sicrwydd ychwanegol a / neu asesiad o Achosion Busnes fel sydd angen. E.e. os ystyrir bod yr Achos Busnes Prosiect a / neu lefel y sicrwydd yr ymgwymerir â hi yn annigonol.

Yn y lle cyntaf, bydd yr achosion busnes prosiect yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Rhaglen perthnasol. Ni chyflwynir achosion busnesau i'r Bwrdd Uchelgais cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Rhaglen ac ar ôl cwblhau'r adolygiadau porth gofynnol. Mae Swyddfa'r Rheoli Portffolio yn cadw'r hawl i gomisiynu adolygiadau allanol o achosion busnes prosiect lle bo'r angen.

Rheoli Newid

Mae Cynllun Rheoli Newid, ynghyd â Chynllun Datrys Anghydfodau, wedi'i ddatblygu ar gyfer y Cynllun Twf. Bydd gweithgareddau rheoli newid ar gyfer y Cynllun Twf yn cael eu rheoli'n bennaf drwy'r Byrddau Rhaglen a'r Bwrdd Prosiect perthnasol o fewn lefelau goddefgarwch a ddyrannwyd gan y Bwrdd Uchelgais wrth ystyried yr achos busnes prosiect.

Byddai angen dyrchafu unrhyw newidiadau arwyddocaol y tu allan i'r lefelau goddefgarwch hyn i'r Bwrdd Portffolio. Yna, cyflwynir argymhellion i'r Bwrdd Uchelgais am benderfyniad. Gallai enghreifftiau o benderfyniadau o'r fath gynnwys newidiadau i gost, sgôp, amserlenni a buddion. Byddai unrhyw newidiadau arwyddocaol y tu hwnt i'r fframwaith llywodraethu cytûn ar gyfer y Cynllun Twf, yn benodol newidiadau a fyddai'n arwain at gost gynyddol i bartneriaid y Bwrdd Uchelgais, yn cael eu hystyried fel mater a gedwir yn ôl a bydd angen cymeradwyaeth yr holl bartneriaid unigol.

Rhaid i unrhyw brosiectau newydd neu amgen sydd i'w cyflwyno am ystyriaeth, ddangos eu bod yn cyflawni yn erbyn yr achos busnes rhaglen perthnasol ac amcanion yr achos busnes portffolio. Lle mae'r brosiectau hyn o fewn yr amlen ariannol gytûn bresennol ar gyfer y bartneriaeth, byddai angen i'r Bwrdd Uchelgais wneud penderfyniad.

Byddai brosiectau sy'n syrthio y tu allan i gylch gorchwyl achos busnes rhaglen cytûn neu'r rhai a fyddai'n fwy na'r amlen ariannol gytûn, yn cael eu hystyried fel 'materion a gedwir yn ôl' ar gyfer partneriaid y Bwrdd Uchelgais.

Rôl aelodau/atebolrwydd

Mae'n ddyletswydd ar holl aelodau'r Bwrdd Uchelgais i weithredu er budd gorau rhanbarth y Cynllun Twf. Hefyd, bydd gofyn i'r holl aelodau sector preifat a thrydydd sector weithredu er budd rhanbarth Cynllun Twf Gogledd Cymru, gan hepgor unrhyw fuddiannau (os o gwbl) y gallai eu sefydliad eu hunain eu cael yn y Cynllun Twf ac unrhyw brosiectau cysylltiedig.

Disgwylir i'r holl aelodau gydymffurfio gyda chod ymarfer eu sefydliadau eu hunain, Polisi Gwrthdaro Buddiannau'r Bwrdd Uchelgais a gwerthoedd a dyheadau y Cynllun Twf.

Gall cynrychiolwyr y Llywodraethau fynychu fel sylwedyddion/rôl ymgynghorol ac nid ydynt wedi'u rhwym i ofynion aelodau'r Bwrdd Uchelgais.

6. Rôl y Corff Atebol

Am oes y Cynllun Twf, bydd y corff atebol yn gyfrifol am dderbyn a chlustnodi cyllid ar gyfer ac ar ran y Bwrdd Uchelgais. Bydd y Corff Atebol:

- Yn gweithredu'n ddiwyd ac yn ddiwyll ym mhopeth a wna gyda'r partïon eraill a bydd yn gwneud ymdrech resymol i gyflawni rhwymedigaethau'r partïon yng nghyswllt gweithredu'r Cynllun Twf a chyflawni'r Weledigaeth Twf.
- Yn gweithredu fel y prif ryngwyneb ar gyfer y Bwrdd Uchelgais gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac unrhyw gorff arall sy'n angenrheidiol i gyflawni'r Cynllun Twf.
- Yn dal unrhyw arian a dderbynnir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, partneriaid y Bwrdd Uchelgais ac/neu unrhyw ffynonellau eraill (os o gwbl) yng nghyswllt y Cynllun Twf a bydd ond yn defnyddio ac yn rhyddhau'r arian hwn fel y cytunir yn unol â thelerau Cynllun Twf;
- Caiff cyllid y Llywodraeth ar gyfer y Cynllun Twf ei ryddhau fel taliad grant ar sail flynyddol yn amodol ar adroddiadau cynnydd chwarterol boddhaol a gweithgareddau sicrwydd perthnasol. Mae'r llythyr dyfarnu cyllid i'r Corff Atebol, sydd wedi'i rwymo mewn cyfraith, yn nodi telerau ac amodau'r cyllid sydd i'w ddarparu. Bydd Cynllun Gweithredu, sy'n nodi'r broses a'r amserlen ddangosol er mwyn caffael a gweithredu'r Cynllun Twf, wedi'i atodi i'r llythyr dyfarnu cyllid.
- Yn dal tir ac/neu unrhyw asedau eraill a gaffaelir dan unrhyw brosiect ar ymddiriedaeth ar gyfer partneriaid y Bwrdd Uchelgais yn unol â thelerau'r Achos Busnes Prosiect perthnasol.
- Heb gymryd cyfrifoldeb am gyflawni unrhyw brosiect penodol o fewn y Cynllun Twf ac o fewn cyfyngiadau'r arian sydd wedi'i ddarparu iddo (fel rhan o Gostau'r Cyd-bwyllgor), bydd yn darparu'r gwasanaethau cefnogaeth sydd angen i hwyluso gwaith y Bwrdd Uchelgais.
- Heb gymryd cyfrifoldeb am gyflawni unrhyw brosiect penodol o fewn y Cynllun Twf, darparu i Brif Swyddog Cyllid y Corff Atebol ("Swyddog a151") a'r Swyddog Monitro (y "Swyddog Monitro") (neu eu dirprwyon a enwebir) i weithredu, yn eu trefn, fel Swyddog a151 a Swyddog Monitro i'r Cyd-bwyllgor; a
- Bod â chyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer, ond heb fod yn gyfyngedig i, weinyddu materion ariannol y Cyd-bwyllgor (a'i is-bwyllgorau a'i grwpiau a sefydlir), yn cynnwys cyfrifo TAW, cadw cofnodion ariannol, sicrhau y paratoir cyfrifon blynyddol y Cyd-bwyllgor yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol a gwneud trefniadau ar gyfer archwilio'r Cyd-bwyllgor yn allanol.
- Cyflogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf.

7. Monitro a gwerthuso

Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'i ddatblygu ar gyfer y Cynllun Twf. Bydd perfformiad y rhaglenni a'r prosiectau'n cael ei fonitro'n fisol drwy'r byrddau rhaglen a phrosiect perthnasol, gydag adroddiadau ffurfiol yn cael eu cyflwyno bob chwarter i'r Bwrdd Portffolio a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ynghyd â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Mae gan y Bwrdd Uchelgais Fframwaith Risg wedi'i fabwysiadu ar gyfer cyflawni'r Cynllun Twf. Mae'r Fframwaith yn nodi sut i reoli risgiau a materion ar y lefel briodol ar draws y portffolio, gyda phrosesau dyrchafu clir yn eu lle yn cynnwys dyrchafu risg i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel sy'n briodol. Mae'r Fframwaith yn nodi tair lefel o risg sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Cynllun Twf - risgiau lefel portffolio, risgiau lefel rhaglen a risgiau lefel prosiect.

Mae cydrannau allweddol y Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'u nodi isod:

- Adroddiadau Uchafbwyntiau Misol ar gyfer pob rhaglen a phrosiect;
- Adroddiadau Chwarterol Ffurfiol i'r Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru;
- Adroddiad Blynyddol Ffurfiol i'r Bwrdd Uchelgais, partneriaid y Bwrdd, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru;
- Gwerthusiad effaith economaidd annibynnol i'w gynnal bob 3-5 mlynedd yn erbyn cyfres o ddangosyddion y cytunwyd arnynt â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
- Bydd y buddion ehangach i'w cyflawni drwy gaffael, yn enwedig gwerth cymdeithasol a chymunedol, yn cael eu monitro a'u gwerthuso i sicrhau bod y rhanbarth yn cael y budd mwyaf o'r fath weithgarwch.
- Bydd y Bwrdd Uchelgais yn gweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwerthuso yn erbyn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn gydran allweddol o'r holl weithgareddau monitro a gwerthuso.
- Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymrwymo i ddatblygu mecanwaith adborth priodol ar gyfer y Cynllun Twf gyda'r ddwy lywodraeth i sicrhau bod y gwersi a ddysgir yn ystod cyflawniad y Cynllun Twf yn cael eu cofnodi a'u rhannu.

8. Protocol Cyfathrebu

Mae Protocol Cyfathrebu yn cael ei gytuno rhwng y ddwy lywodraeth a'r Bwrdd Uchelgais i gyfathrebu negeseuon allweddol yn effeithiol a sicrhau bod y Cynllun Twf yn cael ei hyrwyddo'n gyson ac yn gyd-gysylltiedig.

9. Cyflawni ar gyfer Gogledd Cymru

Bydd y Cynllun Twf yn parhau i esblygu dros ei oes o 15 mlynedd ac mae'r Cytundeb Terfynol yn gosod yr egwyddorion a prosesau, sy'n ymwneud a'r drefn lywodraethol a'r sicrwydd sydd wedi neu a gaiff ei rhoi yn eu lle i sicrhau bod y Cynllun Twf yn parhau'n berthnasol ac yn bosib i'w gyflawni.

Mae pob un o'r llofnodwyr yn edrych ymlaen at weithio gyda'i gilydd er budd pobl a busnesau Gogledd Cymru.


Atodiad 1 - Prosiectau Arfaethedig y Cynllun Twf

- **Rhaglen Ynni Carbon Isel**
 - Morlais
 - Gorsaf Bŵer Trawsfynydd
 - Canolfan Ragoriaeth Carbon Isel
 - Ynni Lleol Blaengar
 - Datgarboneiddio Trafnidiaeth
- **Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel**
 - Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol
 - Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter
- **Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth**
 - Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon
 - Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi
 - Rhwydwaith TALENT Twristiaeth
- **Rhaglen Tir ac Eiddo**
 - Tir ac Eiddo Rhanbarthol
 - Porth Caergybi
- **Rhaglen Ddigidol**
 - Cysylltedd Digidol
 - Canolfan Prosesu Signal Digidol

Atodiad 2 - Dogfennau Llywodraethu Ychwanegol i'r Cytundeb Terfynol

- Prosesau Llywodraethu a Sicrwydd
- IAAP
- Cynllun Monitro a Gwerthuso
- Cofrestr Risg Portffolio'r Swyddfa Rheoli Portffolio
- Strategaeth Gwireddu Buddion
- Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg
- Asesiad Effaith Cydraddoldeb
- Protocol Cyfathrebu
- Strategaeth Rheoli Newid
- Cynllun Gweithredu
- Strategaeth Caffael
- Cynllun Ariannol
- Asesiad Cymhareb Budd-Cost
- Costau Cyfalaf a Refeniw Gweithredol
- Cytundeb Llywodraethu 2 - Trefniadau rhwng yr Awdurdodau Lleol sy'n bartneriaid
- Cynllun Datrys Anghydfod

Atodiad 3 - Proses Cymeradwyo Cyllid Flynyddol



ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
5^{ed} CHWEFROR, 2021

TEITL: *Adroddiad ar Uchafbwyntiau'r Portffolio – Chwefror 2021*

AWDUR: *Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau*

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad yw diweddarau'r Bwrdd Uchelgais ar y cynnydd a wnaed ers cwblhau'r Cytundeb Terfynol yn Rhagfyr 2020.
- 1.2. Mae ystyriaeth o'r Adroddiad a'r Uchafbwyntiau'r Portffolio gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn un o'r amodau ar gyfer derbyn cyfran cyntaf y cyllid Cynllun Twf. Bydd adroddiadau pellach ar gynnydd y Cynllun Twf yn cael ei gyflwyno ar ffurf adroddiad chwarterol ffurfiol. Bydd yr adroddiad chwarterol cyntaf yn cael ei gyflwyno ar gyfer Chwarter 4 2020-21.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Y Bwrdd i nodi'r Adroddiad ar Uchafbwyntiau'r Portffolio ar gyfer Chwefror 2021 a'r cynnydd ers cwblhau'r Cytundeb Twf yn Rhagfyr 2020.
- 2.2. Cymeradwyo cyflwyno'r Adroddiad ar Uchafbwyntiau'r Portffolio ar gyfer Chwefror 2021 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Yn ystod Rhagfyr 2020, cytunodd y Bwrdd Uchelgais i Gytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain.
- 4.2. Mae'r Adroddiad ar Uchafbwyntiau'r Portffolio yn rhoi diweddariad ar y cynnydd ers arwyddo'r cytundeb, a throsolwg o'r sefyllfa bresennol gyda phob rhaglen a phrosiect o fewn y cynllun gydag amserlen wedi ei diweddarau ar gyfer cyflawni. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio yn benodol ar yr amserlen i'r Bwrdd Uchelgais ystyried yr Achosion Busnes Amlinellol.
- 4.3. Mae ystyriaeth o'r Adroddiad a'r Uchafbwyntiau'r Portffolio gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a chyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain yn un o'r gofynion ar gyfer tynnu lawr y cyfran cyntaf o'r cyllid.
- 4.4. Atodir copi o'r Adroddiad a'r Uchafbwyntiau'r Portffolio yn **Atodiad 1**.

ATODIADAU:

Atodiad 1 *Adroddiad ar Uchafbwyntiau'r Portffolio – Chwefror 2021*

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:

“Un o swyddogaeth creiddiol y Bwrdd Uchelgais yw monitro cynnydd a chyflawniad yn y portffolio o raglenni a prosiectau. Mae'r adroddiad yma yn darparu trosolwg priodol er cefnogi'r gwaith yma.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):

“Fel mae paragraff 1.2 yn nodi, mae'r adroddiad yma'n allweddol ar gyfer sicrhau derbyn y rhandaliad grant cyntaf oddi wrth y Llywodraeth ym mis Mawrth.”

CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU

ADRODDIAD UCHAFBWYNTIAU'R PORTFFOLIO

5 CHWEFROR 2021

Bwrdd Uchelgais Economi Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board



Tud. 50





Content

1. Diweddariad ar gynnydd ers y Cynllun Twf Terfynol
2. Argymhellion AOR
3. Diweddariad Rhaglenni a Phrosiectau
 - Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth
 - Rhaglen Ynni Carbon Isel
 - Rhaglen Tir ac Eiddo
 - Rhaglen Cysylltedd Digidol
 - Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel
4. Amserlen OBC Prosiectau 2021
5. Cynllun Cyflawni Rhaglenni - Diweddariad Ionawr 2021
6. Geirfa'r Prosiectau

Diweddariad ar gynnydd ers i'r Cynllun Twf Terfynol gael ei lofnodi ym mis Rhagfyr 2020

- **Llythyr Cynnig Grant** - trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ar y Llythyr Cynnig Grant er mwyn caniatáu i'r taliad cyntaf gael ei dynnu i lawr.
- **Adolygiadau Porth** - mae tri phrosiect wedi trefnu adolygiadau porth. Morlais (Chwefror), Peirianeg Menter ac Opteg (Mawrth) a Chanolbwynt Economi Gwledig Glynllifon (Ebrill).
- **Tendr Gwefan a Brand** - Yn dilyn ymarferiad caffael drwy Gwerthwchi Gymru, mae Tinint wedi'i ddewis i ddatblygu'r wefan a'r brand newydd.
- **Recriwtio** - wedi penodi Rheolwr Prosiect Cysylltedd Digidol a Rheolwr Prosiect Cyllid Ewropeaidd. Strwythur staffio diwygiedig ar gyfer y Swyddfa Rheoli Portffolio i gynnwys adnodd caffael wedi'i gytuno gyda WEFO. Recriwtio i'r swyddi terfynol i ddigwydd ym mis Ionawr/Chwefror.

Tud. 52



Diweddariad ar gynnydd ers i'r Cynllun Twf Terfynol gael ei lofnodi ym mis Rhagfyr 2020

- **Argymhellion AOR** - mae'r tîm yn gweithio drwy'r naw argymhelliad.
- **Gweithgarwch Caffael** - Menter Môn wedi dechrau caffael prif gontractwr ar gyfer prosiect Morlais. Yn ystod mis Ionawr 2021, cyhoeddodd y Swyddfa Rheoli Portffolio dri briff ar Gwerthwchi Gymru i gefnogi datblygu prosiectau yn ymwneud â'r prosiect Ynni Lleol Blaengar, y prosiect Datgarboneiddio Trafnidiaeth a'r prosiect Fferm Sero Net Llysfasi.
- **Adolygiad Gwaelodlin** - wedi'i ddiweddarau ym mis Ionawr 2021 i gadarnhau amserlen ar gyfer Achosion Busnes Amlinellol yn ystod blwyddyn galendr 2020.

Tud. 53



Argymhellion AOR

Argymhelliad AOR	RAG	Sylwadau
1 - Bod y WCGIB yn rhannu'r adroddiad AOR gyda Chynllun Twf Canolbarth Cymru a Bargen Ddinesig Bae Abertawe		Cais am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru.
2 - Bod rhyddhau cyllid C&GD blynyddol wedi'i gysylltu â chyflwyno PoBC diweddaraf yn flynyddol		Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cynllunio i ddiweddarau a chyflwyno'r Achos Busnes Portffolio yn flynyddol.
3 - Bod y PoMO yn ceisio cyfeiriad a chynngor pellach gan EcAd (a/neu gyfwerth Llywodraeth y DU) ar yr ymagwedd i w chymryd yng nghyswllt cyfrifo, cyflwyno a phrofi BCRs prosiectau		Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn ymgysylltu ag economegwyr o EcAd ar ddatblygu achos busnes prosiectau.
4 - Bod y prosiectau Tir ac Eiddo a Chysylltedd Digidol unigol yn cael eu cyflwyno'n unigol ac yn gyson drwy iteriad nesaf y PoBC		Caiff hyn ei weithredu yn niweddariad 2021 yr Achos Busnes Portffolio. Adroddir yn unigol am y prosiectau hyn yn yr adroddiad uchafbwyntiau hwn.
5 - Bod iteriad nesaf y PoBC yn cael ei ddiweddarau i gynnwys adnabod buddion cymunedol ar lefel prosiect, a chyfleoedd sydd wedi'u hadnabod ar gyfer caffael ar y cyd ar lefel prosiect		Caiff hyn ei weithredu yn niweddariad 2021 yr Achos Busnes Portffolio.



Argymhellion AOR

Argymhelliad AOR	RAG	Sylwadau
6 - Bod iteriad nesaf y PoBC yn cael ei ddiweddarau i gynnwys proffiliau refeniw gweithredol ar lefel prosiect (unwaith y byddant wedi'u hadnabod) dros oes y prosiectau, ynghyd â sylwadau cysylltiedig		Caiff hyn ei weithredu yn niweddariad 2021 yr Achos Busnes Portffolio.
7 - Yn iteriad nesaf y PoBC, nodi cyrff cyllid sector cyhoeddus unigol ar wahân a'u cyfraniad yn Nhabl 5.3		Caiff hyn ei weithredu yn niweddariad 2021 yr Achos Busnes Portffolio.
8 - Bod y PoBC yn cael ei ddiweddarau i gynnwys y sefyllfa gyfredol ar NDR hyd nes bydd trafodaethau wedi'u cynnal a chytundeb wedi'i gyrraedd gyda chydweithwyr LGSF		Mae hyn yn cael ei weithredu. Trafodaethau'n parhau rhwng y Swyddog Adran 151 a Chyllid Strategol Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru.
9 - Bod yr IAAP yn cael ei ddiweddarau i gynnwys adolygiadau amlach ar lefel portffolio a rhaglen		Mae'r IAAP yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd yn dilyn cyfarfod gyda Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr.



Diweddariad Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwrist



Prosiect	Amserlen Ddiwygiedig ar gyfer OBC	Risg	Aeddfedrw ydd y Prosiect	Amserlen	Sylwadau
Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon	Mehefin 2021				OBC y prosiect wedi'i amserlennu i'w ddatblygu rhwng Ionawr a Mawrth 2021, gydag Adolygiad Porth wedi'i gynllunio ar gyfer diwedd Mawrth cyn cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais am gymeradwyaeth ym mis Mehefin 2021. Mae ymdrechion eisoes ar y gweill i gysylltu â phartneriaid sector preifat cryf ac arloesol (e.e. Vertical Farming, Seaweed Farming) i gymryd rhan yn y Canolbwynt o'r adeg y bydd wedi'i lansio, ar y cyd â rhanddeiliaid eraill megis Cyswllt Ffermio.
Ffurf Sero Net Llysfasi	Medi 2021				Mae'r prosiect wedi'i oedi rhywfaint yn sgil materion capasiti yn Llysfasi. Bydd cymryd rhan yng nghystadleuaeth Arloesedd Sero Net Llywodraeth Cymru yn arwain at ychydig o oedi, ond bydd hefyd yn rhoi hwb i arbenigedd a datblygu/cryfhau cysylltiadau SME ac yn elwa'r prosiect.
Academi Twristiaeth	Mawrth 2022				Gydag effaith COVID19 ar y sectorau twristiaeth, lletygarwch ac addysg, mae'r prosiect hwn wedi bod yn cael ei adolygu ers mis Mawrth 2020 wrth i eglurder ddod i'r amlwg ynghylch effaith y pandemig. Yn sylfaenol, mae'r achos dros newid yn parhau'n gryf ac mae partneriaid y prosiect (preifat a chyhoeddus) yn parhau'n awyddus i fwrw ymlaen. Mae GLIM yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid porth presennol a hefyd yn lledaenu ac yn cryfhau'r rhwydwaith ledled y rhanbarth.

RAG Risg	
	Risg Uchel
	Risg Ganolig
	Risg Isel
	Dim risgiau wedi'u hadnabod i gymeradwyo'r achos busnes llawn

RAG Aeddfedrwydd y Prosiect	
	Prosiect yn cael ei adolygu - risgiau sylweddol
	Prosiect yn y cam cysyniadol
	Prosiect yn y cam SOC
	Prosiect yn y cam OBC

RAG Amserlen	
	Dim amserlen ar gael ar hyn o bryd
	Prosiect yn hwyr (3 mis+)
	Prosiect ychydig yn hwyr (1-3 mis)
	Prosiect ar amser

Diweddariad Rhaglen Ynni Carbon Isel



Prosiect	Amserlen Ddiwygiedig ar gyfer OBC	Risg	Aeddfedrw ydd y Prosiect	Amserlen	Sylwadau
Morlais	Mai 2021				Ar y trywydd cywir ar hyn o bryd ar gyfer penderfyniad OBC gan y Bwrdd Uchelgais erbyn Mai 2021 a phenderfyniad FBC erbyn Medi 2021 Mae Menter Môn yn anelu i wneud y Penderfyniad Buddsoddi Terfynol erbyn Medi 2021, dechrau gwariant cyfalaf ym mis Tachwedd 2021 a chwblhau gwaith isadeiledd erbyn Ch4 2023. Y prif risgiau i gyflawni targedau yw oedi i benderfyniadau caniatâd a / neu caniatâd cyfyngedig sy'n effeithio ar hyfywedd y cynllun (y ddwy risg yn cael eu rheoli gan Menter Môn drwy'r broses caniatâd).
Canolfan Ragoriaeth Carbon Isel	Yr hydref 2021				Datblygu OBC ar waith gyda dyddiad targed o fis Gorffennaf 2021 ar gyfer adolygiad porth ac wedi hynny ei gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais yn ystod yr hydref 2021. Bwrdd Prosiect Prifysgol Bangor wedi'i sefydlu yn Ionawr 2021. Bydd manylion ynghylch amserlen y Prosiect cyfan, trefniadau arian cyfatebol a threfniadau caniatâd yn cael sylw fel blaenoriaeth.
Ynni Lleol Blaengar	2022 (I'W GADARNHAU)				Briff y prosiect wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Rhaglen. Cam nesaf yw darparu gweithdy i ymgymryd ag asesiad strategol a phenderfynu ar yr achos dros newid a'r amcanion gwariant. Datblygu'r Achos Amlinellol Strategol i ddilyn.
Gorsaf Bŵer Trawsfynydd	2022-23 (I'W GADARNHAU)				Sefydlu Cwmni Egin, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 1 Hydref 2020 Cefnogaeth wleidyddol ar gyfer y prosiect a'r dechnoleg SMR. Camau nesaf yn cynnwys penodi arweinwyr y cwmni ac ymgysylltu â phartneriaid allweddol (yn cynnwys y Bwrdd Uchelgais) ynghylch datblygu'r prosiect.
Datgarboneiddio Trafnidiaeth	Rhag 2021				Mae'r prosiect Datgarboneiddio Trafnidiaeth yn brosiect rhanbarthol a allai gefnogi nifer o gyfleoedd integredig ledled y rhanbarth. Mae dichonolrwydd 'Hybiau Hydrogen' yng Nglannau Dyfrdwy a Chaergybi yn cael ei ymchwilio drwy OBCs ac astudiaethau dichonolrwydd wedi'u hariannu gan grant.

RAG Risg	
	Risg Uchel
	Risg Ganolig
	Risg Isel
	Dim risgiau wedi'u hadnabod i gymeradwyo'r achos busnes llawn

RAG Aeddfedrwydd y Prosiect	
	Adolygu'r Prosiect
	Cysyniad
	SOC
	OBC

RAG Amserlen	
	Dim amserlen ar gael ar hyn o bryd
	Prosiect yn hwyr (3 mis+)
	Prosiect ychydig yn hwyr (1-3 mis)
	Prosiect ar amser

Diweddariad ar y Rhaglen Tir ac Eiddo



Prosiect	Amserlen Ddiwygiedig ar gyfer OBC	Risg	Aeddfedrw ydd y Prosiect	Amserlen	Sylwadau
Porth Caergybi	Gorff - Medi 2021				Mae LIC wedi comisiynu Asesiad Effaith Economaidd ar fudd y Porthladd i'r rhanbarth/Cymru/y DU - disgwylir erbyn diwedd Mawrth 2021. Mae'r costau i gyflawni sgôp llawn prosiect Porth Caergybi y tu hwnt i'r cyllid sydd wedi'i adnabod gan y Bwrdd Uchelgais a Stena. (Morglawdd ac Adfer Tir).
Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych	Ebrill - Medi 2021				Mae'r ceisiadau cynllunio cyfredol yn debygol o gael eu penderfynu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gynnar yn 2021. Yn amodol ar sicrhau caniatâd cynllunio ac yna bydd y gwaith o baratoi'r Achos Busnes Amlinellol yn dechrau.
Safle Strategol Allweddol, Bedelwyddan	Medi 2021 - Mawrth 2022				Mae'r ffaith fod y Caniatâd Cynllunio Amlinellol (OPC) yn dod i ben ym mis Mawrth 2021 a'r amserlen i asesu'r cais i ymestyn oes yr OPC o ddwy flynedd yn rhoi pwysau. Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan Bwyllgor Cynllunio'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Gallai methu ymestyn oes yr OPC arwain at oedi'r prosiect yn ddarostyngedig i fabwysiadu CDLI diwygiedig Sir Ddinbych sydd wedi'i amserlennu ar gyfer 2023.
Waren Hall, Brychdyn	Ion - Meh 2022				Archwiliad CDLI Sir y Fflint yn dechrau fis Chwefror 2021 gyda'r posibilrwydd iddo gael ei fabwysiadu erbyn diwedd 2021. Datganiad Drafft o Dir Cyffredin rhwng y Bwrdd Uchelgais, LIC a Chyngor Sir y Fflint yn y broses i gefnogi cynnwys y safle yn y CDLI. Cytundeb Cydweithio LIC / Bwrdd Uchelgais wedi'i gytuno'n bennaf yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gyfreithiol LIC.
Porth Wrecsam	Gorff 2021 - Medi 2022				Cadarnhau cynlluniau buddsoddi'r sector preifat a'r amserlen ddangosol i'w chadarnhau. Potensial i ddatblygu'r safle cyn mabwysiadu CDLI Wrecsam a gwella C4 yr A483 yn annhebygol. Mae'r amserlen ddiwygiedig yn adlewyrchu'r risg na fydd unrhyw ganiatadau yn cael eu rhoi hyd nes bod y C4 newydd wedi'i chyflawni.
Parc Bryn Cegin, Bangor	Medi – Rhag 2021				Cytundeb Cydweithio LIC wedi'i gwblhau'n bennaf yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gyfreithiol LIC. LIC yng nghamau cynnar cynnal trafodaethau gyda datblygwyr preifat ar gyfer darparu llety cyflogaeth parod.

RAG Risg	
	Risg Uchel
	Risg Ganolig
	Risg Isel
	Dim risgiau wedi'u hadnabod i gymeradwyo'r achos busnes llawn

RAG Aeddfedrw ydd y Prosiect	
	Prosiect yn cael ei adolygu - risgiau sylweddol
	Prosiect yn y cam cysyniadol
	Prosiect yn y cam SOC
	Prosiect yn y cam OBC

RAG Amserlen	
	Dim amserlen ar gael ar hyn o bryd
	Prosiect yn hwyr (3 mis+)
	Prosiect ychydig yn hwyr (1-3 mis)
	Prosiect ar amser

Diweddariad ar y Rhaglen Cysylltedd Digidol



Prosiect	Amserlen Ddiwygiedig ar gyfer OBC	Risg	Aeddfedrwydd y Prosiect	Amserlen	Sylwadau
Coridor Cysylltiedig	Mehefin 2021				Bydd y bwrdd prosiect newydd yn cynnal gweithdai achos strategol y mis hwn. Caiff arbenigwyr allanol eu caffael i gefnogi gwerthusiadau opsiynau technegol, a datblygu achosion economaidd ac achosion masnachol. Mae cefnogaeth ar gyfer cysyniad y prosiect yn gryf yn gyffredinol, sy'n cynnwys rhai partneriaid sy'n gwbl newydd i'r Cynllun Twf, yn cynnwys NMWTRA, Heddlu Gogledd Cymru a Network Rail.
Yr ychydig % olaf	Mehefin 2021				Bydd Rhaglen Gigabit Llywodraeth y DU yn effeithio ar sgôp a dyluniad y prosiect hwn a rhagwelir manylion ynghylch sut caiff hyn ei gyflawni yng Nghymru yn ystod y chwarter hwn. Mae sawl opsiwn ar gyfer cyflawni wedi'u hadnabod a chynllunnir i'r OBC gael ei ddatblygu yn gynnar yn 2021. Mae grŵp o swyddogion o'r chwe Awdurdod Lleol wedi bod yn cyfarfod dryw gydol 2020 i adolygu cynnydd gyda darparu band eang gwledig ac adolygu'r opsiynau ar gyfer ymyrraeth y Bwrdd Uchelgais. Mae'r Bwrdd Rhaglen wedi cymeradwyo'r grŵp hwn dros dro i fod yn Fwrdd Prosiect.
Cysylltedd Cystadleuol - ffibr llawn mewn safleedd allweddol	Rhagfyr 2021				Gall Rhaglen Gigabit Llywodraeth y DU yn effeithio ar sgôp a dyluniad y prosiect hwn a rhagwelir manylion ynghylch sut caiff hyn ei gyflawni yng Nghymru yn ystod y chwarter hwn. Mae sawl opsiwn ar gyfer cyflawni wedi'u hadnabod a chynllunnir i'r OBC gael ei ddatblygu yn hwyr yn 2021. Nid oes bwrdd prosiect wedi'i sefydlu eto ond bydd hyn yn dilyn unwaith y bydd y byrddau wedi'u sefydlu ar gyfer y ddau brosiect cyntaf dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais.
Campws Cysylltiedig	Rhagfyr 2021				Bydd angen i'r cysyniad gael ei ddatblygu yn yr haf gyda bwrdd prosiect i gael ei sefydlu. Bydd gwaith ar y prosiect Coridorau Cysylltiedig yn ychwanegu gwerth i'r prosiect hwn gyda thechnoleg debyg bosib i gael ei darparu a modelau masnachol. Gall yr opsiwn i gyflawni'r ddau brosiect ar y cyd gael ei ystyried gan y Bwrdd Rhaglen a'r bwrdd prosiect Coridorau.
Canolfan DSP	Mehefin 2021				Mae achos busnes y Prosiect DSP ar y trywydd cywir ar hyn o bryd gyda'r OBC yn datblygu'n dda, mae'r achos Strategol wedi'i ddrafftio a'r achos Economaidd ar waith ar hyn o bryd. Bydd y gweithdai perthnasol ar gyfer yr achosion hyn wedi'u trefnu'n fuan. Mae strwythur llywodraethu arfaethedig newydd Prifysgol Bangor yn cynnwys bwrdd prosiect Cynllun Twf DSP penodol a fydd yn helpu i fwrw ymlaen â datblygu'r OBC ar gyfer adolygiad porth arfaethedig ym mis Ebrill/Mai.

RAG Risg	
	Risg Uchel
	Risg Ganolig
	Risg Isel
	Dim risgiau wedi'u hadnabod i gymeradwyo'r achos busnes llawn

RAG Aeddfedrwydd y Prosiect	
	Adolygu'r Prosiect
	Cysyniad
	SOC
	OBC

RAG Amserlen	
	Dim amserlen ar gael ar hyn o bryd
	Prosiect yn hwyr (3 mis+)
	Prosiect ychydig yn hwyr (1-3 mis)
	Prosiect ar amser

Diweddariad ar y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel




Prosiect	Amserlen Ddiwygiedig ar gyfer OBC	Risg	Aeddfedrw ydd y Prosiect	Amserlen	Sylwadau
Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol Tud. 60	Ionawr 2022				Cysyniad y Prosiect yn barod i fwrw ymlaen i ddatblygu OBC. Cynhelir cyfarfod cyntaf y bwrdd prosiect fis Ionawr 2021 - bydd y bwrdd prosiect yn datblygu cofrestr risg, yn cefnogi datblygu'r achos busnes ac yn cryfhau cysylltiadau â'r diwydiant. Adolygiad porth cychwynol wedi'i amserlennu ar gyfer dechrau Mai 2021, datblygiadau OBC pellach drwy gydol 2021, gydag Adolygiad Porth 2 wedi'i amserlennu ar gyfer mis Tachwedd. Prosiect yn anelu at gymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais ym mis Ionawr 2022.
Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter (EEOC)	Mehefin 2021				Mae'r OBC wedi'i amserlennu i'w ddatblygu drwy'r dull pum achos rhwng Ionawr a Mawrth 2021, gydag Adolygiad Porth wedi'i gynllunio ar gyfer diwedd Mai cyn cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais am gymeradwyaeth ym mis Mehefin 2021. Yn sgil agweddau aml-sectorol y prosiect a'r angen hanfodol i sicrhau llwybrau i'r farchnad, mae'r broses OBC yn cael ei chychwyn gydag adolygiad porth ychwanegol wedi'i amserlennu ar gyfer mis Mawrth gan ganolbwyntio ar y meysydd hyn.

RAG Risg	
	Risg Uchel
	Risg Ganolig
	Risg Isel
	Dim risgiau wedi'u hadnabod i gymeradwyo'r achos busnes llawn

RAG Aeddfedrw ydd y Prosiect	
	Adolygu'r Prosiect
	Cysyniad
	SOC
	OBC

RAG Amserlen	
	Dim amserlen ar gael ar hyn o bryd
	Prosiect yn hwyr (3 mis+)
	Prosiect ychydig yn hwyr (1-3 mis)
	Prosiect ar amser

Amserlen OBC Prosiectau 2021



Cynllun Cyflawni Rhaglenni

Diweddariad Ionawr 2021



Cam Datblygu'r Achosion Busnes a Chymeradwyo*

Cam Caffael a Chyflawni Prosiectau**

Cam Gweithredol a Gwireddu Buddion

* Cymeradwyo OBC cyn caffael

**Yn cynnwys cymeradwyo FBC ar ôl caffael



Rhestr Prosiectau


Rhaglen	Prosiect	Ariannwr	Crynodeb
Digidol	Cysylltedd Cystadleuol - ffibr llawn mewn safleoedd allweddol	Y BWRDD UCHELGAIS	Bydd y prosiect hwn yn cyflawni cysylltedd ffeibr llawn (addas ar gyfer gigabit) i 28 o safleoedd busnes allweddol ar draws y Gogledd.
	Campws Cysylltiedig	Y BWRDD UCHELGAIS	Mae'r prosiect hwn yn ceisio cyflymu datblygiad isadeiledd ar gyfer 19 o safleoedd economaidd rhanbarthol allweddol.
	Coridor Cysylltiedig	Y BWRDD UCHELGAIS	Gyda'i gilydd, bydd 156km o goridor ffordd a rheilffordd wedi'i gysylltu â 5G/Rhwydweithiau Mynediad Di-Wifr Pŵer Isel, ar hyd coridor yr A55 a'r llwybr prif lein rheilffordd cyfagos.
	Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf	Y BWRDD UCHELGAIS	Mae'r prosiect hwn yn targedu gwasanaeth cyflym iawn hollgynhwysol ar draws y Gogledd, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu hyd yma gan ddulliau eraill ac na allant gyflawni cyflymder o 30Mbps (lawrlwytho) o leiaf ar hyn o bryd.
Tir ac eiddo Tud. 63	Porth Caergybi	Stena Line	Sicrhau dyfodol porthladd Caergybi drwy ddarparu cyfleusterau mordeithio a llwytho trwm dŵr dwfn, gwella mynediad cerbydol, gwarantu dyfodol y morglawdd a darparu ar gyfer galwadau prosiectau ynni rhanbarthol.
	Porth Wrecsam	Y BWRDD UCHELGAIS	Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu.
	Safle Strategol Warren Hall	Y BWRDD UCHELGAIS	Cyflwyno prif wasanaethau fel bod modd i'r safle defnydd cymysg 65 hectar gael ei roi ar y farchnad ar werth ac yna gael ei ddatblygu gan y sector preifat.
	Safle Strategol Bodelwyddan	Y BWRDD UCHELGAIS	Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle datblygu preswyl a masnachol defnydd cymysg i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu.
	Safle Cyn Ysbyty Gogledd Cymru	Y BWRDD UCHELGAIS	Bydd arian y Cynllun Twf yn cynorthwyo yng nghyflwyniad safle wedi'i glirio a'i adfer gyda phrif wasanaethau er mwyn dwyn ymlaen datblygiad preswyl a masnachol defnydd cymysg
	Safle Strategol Bryn Cegin	Y BWRDD UCHELGAIS	Darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau.
Arloesi mewn Gweithgynh yrchu Gwerth Uchel	Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB)	Prifysgol Bangor	Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol. Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn darparu sylfaen gref ar gyfer denu ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru.
	Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter	Prifysgol Glyndŵr	Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianeg Menter yn darparu cyfleusterau sydd wedi'u targedu i roi hwb i ddatblygu sgiliau lefel uchel i'r rhanbarth a galluogi i fusnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar ymchwil a datblygu opteg, cyfansoddion a thanwydd cell hydrogen sy'n cael ei yrru'n fasnachol.



Rhestr Prosiectau

Rhaglen	Prosiect	Ariannwr	Crynodeb
Tud. 64 Ynni carbon isel	Morlais	Menter Môn	Adeiladu'r seilwaith sy'n cysylltu Parth Morlais â'r system grid trydan, gan baratoi'r safle ar gyfer datblygwyr sector preifat i lesu rhannau o'r parth ar gyfer defnyddio technolegau ynni llanwol.
	Gorsaf Bŵer Trawsfynydd	Cwmni Eginio	Mae'r safle wedi'i leoli'n unigryw ar gyfer gwneud defnydd 'Cyntaf o'i Fath' o Adweithydd Modwlar Bychan (SMR) neu Adweithydd Modwlar Uwch (AMR). Ar y cyd â'r sector cyhoeddus a phreifat, bydd y Cynllun Twf yn cyfrannu cyllid tuag at isadeiledd galluogi ar gyfer y datblygiad hwn.
	Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel	Prifysgol Bangor	Buddsoddi mewn datblygu'r isadeiledd ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella galluedd y Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd
	Ynni Lleol Blaengar	Y BWRDD UCHELGAIS	Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau hwyluso arloesol ac arddangoswyr sy'n goresgyn methiannau'r farchnad a datgloi buddsoddiad sector preifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar.
	Datgarboneiddio Trafnidiaeth	Y BWRDD UCHELGAIS	Cefnogi cyflawni prosiect arddangos sy'n ymwneud â chynhyrchu hydrogen gwyrdd o ffynonellau ynni carbon isel a'i ddefnydd o fewn rhwydweithiau trafndiaeth rhanbarthol.
Bwyd-amaeth a thwristiaeth	Rhwydwaith TALENT Twristiaeth	Grŵp Llandrillo Menai	Sicrhau dyfodol yr ystod o ddarpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig yn y rhanbarth. Bydd y rhwydwaith talent yn ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth.
	Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon	Grŵp Llandrillo Menai	Y weledigaeth yw creu Canolbwynt Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod.
	Fferm Sero Net Llysfasi	Coleg Cambria	Nod Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi yw arwain y Gogledd at ddyfodol gwydn lle mae rheolaeth tir carbon niwtral yn ganolog i sector ynni adnewyddadwy datblygol sy'n cefnogi cymuned gynaliadwy, ffyniannus ac iach sy'n cwmpasu cymysgfa wledig/trefol y rhanbarth.





ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
5^{ed} CHWEFROR, 2021

TEITL: *Cynllun Twf Gogledd Cymru - Prosesau Cyllido ac Achos Busnes*

AWDUR: *Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau*

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad yw diweddarau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar y prosesau perthnasol ar gyfer cymeradwyo achosion busnes y prosiectau a sicrhau bod y cyllid yn cael ei dynnu i lawr yn flynyddol.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Bod y Bwrdd yn nodi cynnwys yr adroddiad.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.
- 4.2. Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r prosesau y cytunwyd arnynt gan y ddwy Lywodraeth ar gyfer cymeradwyo'r cyllid blynyddol a chymeradwyo achosion busnes unigol.

Cyllid Blynyddol - Proses Gymeradwyo

- 4.3. Er mwyn sicrhau y tynnir cyllid i lawr yn flynyddol, bydd angen i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ddangos y cynnydd sydd wedi'i wneud bob blwyddyn drwy gyflwyno cyfres o ddogfennau allweddol i'r ddwy lywodraeth. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys:
- Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Twf;
 - Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig wedi'i ddiweddarau;
 - Achosion Busnes Portffolio a Rhaglenni wedi'u diweddarau;
 - Adroddiad Porth 0 diweddaraf ar gyfer y Cynllun Twf;
 - Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddarau;
 - Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'i ddiweddarau.
- 4.4. Unwaith y byddant wedi'u cyflwyno, byddai'r ddwy Lywodraeth yn llywio'r dogfennau drwy eu prosesau cymeradwyo mewnol. Mae'n bosib y bydd angen i'r Bwrdd Uchelgais gyflwyno neu ddarparu gwybodaeth bellach fel rhan o'r broses. Yn dilyn cymeradwyaeth, byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Llythyr Dyfarnu Grant i alluogi tynnu'r cyllid i lawr.

Achosion Busnes y Prosiectau - Proses Gymeradwyo

- 4.5. Rhaid i achosion busnes y prosiectau gael eu datblygu i'r Model Busnes Pum Achos yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM. Datblygir yr achosion busnes hyn mewn tri cham - Achos Amlinellol Strategol (SOC), Achos Busnes Amlinellol (OBC) ac Achos Busnes Llawn (FBC).
- 4.6. Mae pwrpas penodol i bob un o'r pum achos o fewn y model hwn:
- Achos Strategol - a oes angen y cynnig?
 - Achos Economaidd - a yw'r cynnig yn rhoi gwerth am arian?
 - Achos Masnachol - a yw'r cynnig yn hyfyw?
 - Achos Ariannol - a yw'r cynnig yn fforddiadwy?
 - Achos Rheolaethol - a yw'r cynnig yn gyraeddadwy?
- 4.7. Er mai'r Bwrdd Uchelgais yw'r corff gwneud penderfyniadau ar gyfer y Cynllun Twf wrth gymeradwyo achosion busnes, bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn adolygu ac yn cymeradwyo'r broses sicrwydd yr ymgwymerir â hi gan bob prosiect.
- 4.8. Mae tair elfen allweddol i'r broses sicrwydd ar gyfer achosion busnes:
- Proses Datblygu Achosion Busnes - datblygu achos busnes o ansawdd uchel yn unol â'r canllawiau, ymgymryd â'r gweithdai perthnasol a defnyddio arbenigedd penodol lle bo angen.
 - Sicrwydd Mewnol - ystyriaeth drwy'r bwrdd prosiect perthnasol, y bwrdd rhaglen perthnasol, y bwrdd portffolio a'r Swyddfa Rheoli Portffolio.
 - Sicrwydd Allanol - drwy Adolygiadau Porth.
- 4.9. Mae Adolygiadau Porth yn rhan allweddol o'r broses sicrwydd. Maent yn adolygiadau annibynnol a wneir ar bwyntiau penderfynu allweddol yng nghylch bywyd prosiect:
- Porth 1 - Cyfiawnhad Busnes. Yn cyd-fynd â'r Achos Amlinellol Strategol (SOC).
 - Porth 2 - Strategaeth Cyflawni. Yn cyd-fynd â'r Achos Busnes Amlinellol (OBC).
 - Porth 3 - Penderfyniad Buddsoddi. Yn cyd-fynd â'r Achos Busnes Llawn (FBC).
 - Porth 4 - Parodrwydd am y Gwasanaeth. Ar ôl adeiladu, ond cyn cyflawni'r gwasanaeth.
 - Porth 5 - Adolygiad Gweithredol a Gwireddu Buddion.
 - PAR - Adolygiad Asesu Prosiect. Yn hyblyg ac fe'i defnyddir lle mae prosiectau yn disgyn rhwng y Pyrth traddodiadol.
- 4.10. Yn sgil eu haeddfedrwydd a bodolaeth Achosion Busnes y Rhaglenni a'r Portffolio, bydd y rhan fwyaf o brosiectau'r Cynllun Twf yn symud ymlaen i'r cam OBC.
- 4.11 Wrth gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol (yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Llywodraeth i'r broses sicrwydd), bydd y Bwrdd Uchelgais yn galluogi i'r prosiect fwrw ymlaen â'r gweithgaredd caffael angenrheidiol. Bydd hyn yn caniatáu i'r Achos Busnes Llawn gael ei ddatblygu, gan ddarparu rhagor o sicrwydd ynghylch cost, amserlenni a buddion. Unwaith y bydd yr Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo, gellir cychwyn cyflawni.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:

“Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):

“Fel mae paragraff 1.1 yn nodi, mae’r adroddiad yn gosod allan y drefn i’w ddilyn er mwyn gallu sicrhau’r derbyniadau grant blynyddol.”

ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
5^{ed} CHWEFROR, 2021

TEITL: *Esblygu'r Grŵp Cyflawni Busnes a gwella ymgysylltu â'r sector preifat*

AWDUR: *Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio*

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Cyflwyno Cylch Gorchwyl drafft arfaethedig ar gyfer y Bwrdd Cyflawni Busnes, a ddatblygwyd ar y cyd rhwng y Grŵp Cyflawni Busnes a'r Swyddfa Rheoli Portffolio.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cadarnhau'r Cylch Gorchwyl drafft arfaethedig sy'n amlinellu cylch gwaith diwygiedig ar gyfer y Grŵp Cyflawni Busnes. Dylid nodi, unwaith y bydd y Cylch Gorchwyl wedi'i gytuno, y dylid cytuno ar enw newydd ac addas i'r cylch gwaith diwygiedig.

2.2. Cadarnhau y gall aelodau cyfredol y Grŵp Cyflawni Busnes, ar y cyd â Chadeirydd y Bwrdd Uchelgais a'r Cyfarwyddwr Portffolio, weithio gyda'i gilydd i benodi Cadeirydd parhaol i'r grŵp.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Yn eu cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr, 2021 cytunodd aelodau'r Grŵp Cyflawni Busnes a'r Swyddfa Rheoli Portffolio ei bod hi'n amserol ac yn briodol edrych ar gylch gwaith y Grŵp Cyflawni Busnes.

4.2. Bydd prosiectau'r Cynllun Twf yn helpu'r Gogledd i oresgyn y rhwystrau i fuddsoddi y mae'r sector preifat yn eu hwynebu ar hyn o bryd ac hefyd yn rhoi buddsoddiad mewn sectorau gwerth uchel, megis ynni carbon isel a gweithgynhyrchu uwch, gan alluogi i'r rhanbarth adeiladu ar ei gryfderau.

4.3. Mae'r dull o gyflawni'r Cynllun Twf yn llwyddiannus wedi'i seilio ar berthynas gref a chydweithredol rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU, partneriaid rhanbarthol a'r sector preifat.

4.4. Gyda'r Cynllun Twf Terfynol wedi'i lofnodi ym mis Rhagfyr 2020, mae hi'n bwysig datblygu'r perthnasau a'r strwythurau rhanbarthol i alluogi a meithrin perthnasau cryf a chynhwysol gyda'r sector preifat.

4.5. Mae'r Cylch Gorchwyl drafft yma wedi'i ddatblygu ar y cyd rhwng y Bwrdd Uchelgais, y Swyddfa Rheoli Portffolio a chynrychiolwyr y sector preifat sydd wedi braenaru'r tir, gyda'i gilydd a thros nifer o flynyddoedd, i alluogi llofnodi'r Cynllun Twf.

4.6. Bydd yr aelodaeth gyfredol, dan arweiniad y Cadeirydd dros dro, a chyda chefnogaeth gan y Swyddfa Rheoli Portffolio, yn recriwtio ac yn penodi aelodau newydd i gynrychioli'r holl sectorau sy'n cael sylw gan y Cynllun Twf.

4.7. Unwaith y bydd aelodaeth y grŵp wedi'i chytuno, bydd y grŵp yn enwebu Cadeirydd, gyda chefnogaeth gan Gadeirydd y Bwrdd Uchelgais a'r Cyfarwyddwr Portffolio. Cynigir bod y Cadeirydd a enwebir yn gwasanaethu am dymor o ddwy flynedd.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Mae dyraniad cyllideb o £20K wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2020/21. Gwnaed y ddarpariaeth fel tâl i Gadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes.

5.2. Mae'r ddarpariaeth hon yn parhau yn y gyllideb gan fod recriwtio Cadeirydd drwy'r broses penodiadau cyhoeddus wedi bod yn aflwyddiannus ac mae Cadeirydd dros dro yn ei le.

5.3. Cynigir bod y Bwrdd diwygiedig yn gweithredu'n wirfoddol gyda'r £20K a ddarparwyd yn y gyllideb yn hanesyddol ar gyfer tâl y Cadeirydd yn cael ei ailddyrranu i waith y Bwrdd diwygiedig yn 2021/22. Gellir adolygu swm y gyllideb ymhellach yn ystod 2021/22.

5.4. Bydd y Bwrdd diwygiedig yn defnyddio'r gyllideb mewn ffordd sy'n cefnogi ei waith i gyflawni'r deilliannau a ddisgrifir yn ei Gylch Gorchwyl. Gellir defnyddio'r gyllideb ar gyfer digwyddiadau, comisiynu ymchwil, gwaith arolwg neu weithgareddau cyffelyb. Bydd yr holl wariant yn cael ei weinyddu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Gwynedd.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae'r Grŵp Cyflawni Busnes wedi'i sefydlu fel Is-grŵp o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae GA 2 yn amodi:

"Bydd y Cyd-bwyllgor yn sefydlu aelodaeth, rheolau gweithdrefn a chylch gorchwyl yr holl is-bwyllgorau neu is-grwpiau neu gyrff rheoli prosiect er mwyn, ymhlith materion eraill, egluro eu rôl briodol ac ystod y dirprwyo a gaiff ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor."

6.2. Mae cymeradwyo Cylch Gorchwyl drafft y Bwrdd Cyflawni Busnes yn fater i'r Cyd-bwyllgor.

7. GOBLYGIADAU STAFFIO

7.1. Dim.

8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

8.1. Dim.

9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIYD

9.1. Cyfarfu'r Grŵp Cyflawni Busnes ar 12 Ionawr, 2021 ac ar 20 Ionawr i drafod a datblygu'r Cylch Gorchwyl ar y cyd gyda chynrychiolwyr o'r Swyddfa Rheoli Portffolio.

ATODIADAU:

Atodiad 1 Cylch Gorchwyl Drafft

Atodiad 2 Cylch Gorchwyl presennol sydd wedi gynnwys yn Cytundeb Llywodraethu 2

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:

"Byddaf mewn sefyllfa i gynghori ar yr adroddiad a'r cylch gorchwyl arfaethedig yn y cyfarfod."

ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):

"Rwy'n cadarnhau'r sefyllfa ariannol sydd wedi'i nodi yn rhannau 5.1 a 5.2 yr adroddiad, ac yn cefnogi agweddau ariannol y datrysiad arfaethedig, fel sydd wedi'i amlinellu yn rhannau 5.3 a 5.4."

Cylch Gorchwyl Drafft - [Enw'r Bwrdd i'w gytuno gan y Bwrdd Uchelgais]

(Mae'r Bwrdd Cyflawni Busnes yn derm sydd wedi'i ddiffinio yn GA2 a bydd unrhyw enw a fabwysiedir yn cyfeirio at y term hwn)

Diweddariad: 26 Ionawr 2020

Cefndir

Mae'r Bwrdd Cyflawni Busnes wedi'i hen sefydlu gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ("Y Bwrdd Uchelgais") fel is-grŵp. Yn eu cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr, 2021 awgrymodd aelodau'r Grŵp Cyflawni Busnes a chytunodd y Swyddfa Rheoli Portffolio, ei bod hi'n amserol ac yn briodol edrych ar gylich gwaith y Grŵp Cyflawni Busnes. Mae'r penderfyniad hwn yn gyson â dymuniad y Bwrdd Uchelgais i wahodd y Grŵp Cyflawni Busnes i gynnig dulliau i adeiladu ymhellach ar y berthynas gyda'r sector preifat.

Bydd prosiectau'r Cynllun Twf yn helpu'r Gogledd i oresgyn y rhwystrau i fuddsoddi y mae'r sector preifat yn eu hwynebu ar hyn o bryd ac hefyd yn rhoi buddsoddiad mewn sectorau gwerth uchel, megis ynni carbon isel a gweithgynhyrchu uwch, gan alluogi i'r rhanbarth adeiladu ar ei gryfderau.

Mae'r dull o gyflawni'r Cynllun Twf yn llwyddiannus wedi'i seilio ar berthynas gref a chydweithredol rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU, partneriaid rhanbarthol a'r sector preifat.

Gyda'r Cynllun Twf Terfynol wedi'i lofnodi ym mis Rhagfyr 2020, mae hi'n bwysig datblygu'r perthnasau a'r strwythurau rhanbarthol i alluogi a meithrin perthnasau cryf a chynhwysol gyda'r sector preifat.

Mae'r Cylch Gorchwyl drafft yma wedi'i ddatblygu ar y cyd rhwng y Bwrdd Uchelgais, y Swyddfa Rheoli Portffolio a chynrychiolwyr y sector preifat sydd wedi braenaru'r tir, gyda'i gilydd a thros nifer o flynyddoedd, i alluogi llofnodi'r Cynllun Twf.

Statws a Phwrpas

Sefydlodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru y Bwrdd Cyflawni Busnes fel is-grŵp i ddarparu cyngor, cefnogaeth a chyfarwyddyd i'r Bwrdd Uchelgais a gweithio ar y cyd â'r Swyddfa Rheoli Portffolio i gyflawni'r Cynllun Twf.

Nodau

Mae'r Bwrdd Cyflawni Busnes yn rhannu'r un nodau â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a bydd ei waith yn canolbwyntio ar gefnogi'r rhanbarth i gyflawni yn erbyn y nodau allweddol hyn.

Y nodau allweddol i'w cyflawni gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru drwy'r Cynllun Twf yw:

- Adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd.
- Adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd a mynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hir-dymor i gyflawni twf cynhwysol.
- Yr ymagwedd yw hyrwyddo twf mewn ffordd gynhwysol, gynaliadwy, y gellir ei ymestyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yr amcanion allweddol i'w cyflawni gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru drwy'r Cynllun Twf yw:

- Creu 3,400 - 4,200 o swyddi ychwanegol net.
- Cynhyrchu £2.0 - £2.5 biliwn mewn GVA ychwanegol net.

- Denu cyfanswm o dros £1bn o fuddsoddiad i economi'r Gogledd.

Mae cyflawni'r nodau a'r amcanion hyn yn dibynnu ar berthynas ddeinamig ac effeithiol gyda'r sector preifat yn lleol yn y Gogledd ond hefyd y tu hwnt i hyn ac i mewn i'r farchnad buddsoddwyr rhyngwladol. Mae'r ffocws wedi newid o fod yn canolbwyntio'n fewnol ar gyflawni'r cynllun twf i gyflawni ac, felly, denu buddsoddiad.

Mae'r holl amcanion yn rhyng-ddibynnol ac wedi'u seilio ar gydweithio da i werthu'r Gogledd i'r byd. Byddwn yn buddsoddi buddsoddiad y Llywodraeth o £240m yn ein portffolio o brosiectau a ddiffinnir o fewn y Cynllun Twf a bydd hyn yn datgloi'r potensial ar gyfer buddsoddiad pellach i ddod i'r rhanbarth gan fuddsoddwyr sector preifat sy'n medru gweld potensial y rhanbarth fel y gallwn ninnau.

Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

Mae'r Bwrdd yn darparu:

Cyngor strategol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar faterion yn ymwneud â rhaglenni Cynllun Twf Gogledd Cymru sef - ynni carbon isel, cysylltedd digidol, tir ac eiddo, arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel, bwyd-amaeth a thwristiaeth. Hefyd, ceisir cyngor yn y meysydd ehangach o ddatblygu'r economi, trafnidiaeth a sgiliau.

Cefnogaeth i hyrwyddo'r Cynllun Twf yn rhagweithiol a cheisio **ymrwymiad a chyfranogiad** yr holl sectorau allweddol wrth ddatblygu a chyflawni prosiectau'r Cynllun Twf. Dylai'r bwrdd gasglu a rhannu gwybodaeth, tystiolaeth a dadansoddiad am y farchnad, a hynny'n annibynnol, a fydd yn cyfrannu at fonitro cynnydd a gwerthuso effaith prosiectau'r Cynllun Twf, ac yn cefnogi hynny.

Cyfarwyddyd ar sut i ddenu **buddsoddiad sector preifat** i'r Gogledd. Y ddwy raglen allweddol sydd angen buddsoddiad sylweddol gan bartneriaid yn y sector preifat yw Tir ac Eiddo ac Ynni Carbon Isel. Bydd angen ymgynghori agos ac ymagwedd wedi'i chynllunio i dargedu'r buddsoddiad angenrheidiol hwn sydd gyfwerth â dros £700m.

Mae'r Bwrdd:

- yn darparu her strategol i sicrhau bod adnoddau a chyllid yn cyd-fynd i gyflawni yn erbyn nodau ac amcanion y Cynllun Twf.
- yn darparu adfocatiaeth a chefnogaeth o fewn eu rhwydweithiau a'r tu hwnt, gan ddefnyddio'r holl sianeli priodol sydd ar gael iddynt wneud hynny.
- yn ymgysylltu ac yn dylanwadu ar Lywodraethau i yrru datblygiad polisi mewn meysydd strategol allweddol. Caiff yr ymagwedd hon ei chytuno a'i chydlynu rhwng y Cadeirydd a Chyfarwyddwr y PMO er mwyn helpu i gyflawni'r deilliannau a ddymunir.
- yn darparu mewnwelediad, data a chyngor ynghylch meysydd blaenoriaeth y rhanbarth mewn busnes a/neu lle mae materion yn bodoli.
- yn hwyluso cyflwyniadau, fel sy'n briodol, i fuddsoddwyr posib sy'n chwilio am brosiectau addas i fuddsoddi ledled y Gogledd.
- yn annog ac yn hwyluso cyfathrebu a rhyngweithio rhwng y gymuned fusnes (lleol a'r tu hwnt) a'r PMO. Rhannu sicrwydd cyfochrog ac adnoddau i adeiladu dealltwriaeth o'r hyn sydd gan y Gogledd i'w gynnig a sut mae'r Cynllun Twf yn gwneud hyn hyd yn oed yn fwy deniadol.
- yn cefnogi ac yn cymryd rhan yn y strategaeth a'r cynllun marchnata ar gyfer y Cynllun Twf. Yn rhannu ac yn hoffi'r negeseuon cyfryngau cymdeithasol allweddol ac yn rhoi blas personol ar pam a sut y bydd ein cyfleoedd a'n buddsoddiadau Cynllun Twf yn gwneud gwahaniaeth.

Bwrdd Uchelgais Economaidd

Mae Cytundeb Llywodraethu 2 "GA2" yn crynhoi cyfansoddiad a rôl y Bwrdd Cyflawni Busnes, fel Is-grŵp o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Yn unol â GA2, caiff cyfansoddiad a rôl y cwrdd ac unrhyw ddiwygiadau eu cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais, a'u cytuno ganddo.

Bydd y Bwrdd Uchelgais yn ystyried yn llawn ac yn derbyn unrhyw gyngor neu her gan y Bwrdd Cyflawni Busnes. Caiff unrhyw argymhellion ffurfiol a wneir gan y Bwrdd Cyflawni Busnes i'r Bwrdd Uchelgais eu cyflwyno mewn adroddiad ysgrifenedig a gaiff ei ystyried mewn cyfarfod o'r Bwrdd a chaiff yr ymateb a'r rhesymau eu cofnodi a'u cyfathrebu.

Cyfarfodydd

Bydd y Bwrdd yn cyfarfod bob deufis ar-lein am ddwy awr. Bydd y trefniadau hyn yn eu lle hyd nes y bydd hi'n ddiogel ac yn briodol i adolygu'r trefniadau ac ystyried cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Caiff rhaglenni'r cyfarfodydd, sy'n amlinellu'r busnes sydd i'w drafod, eu cytuno gyda'r cadeirydd a dylid eu dosbarthu i aelodau'r Swyddfa Rheoli Portffolio ddim hwyrach na thri diwrnod clir (ac eithrio materion brys) cyn diwrnod y cyfarfod.

Ysgrifenyddiaeth

Darperir y rôl ysgrifenyddiaeth gan y Swyddfa Rheoli Portffolio ar ran y Bwrdd Uchelgais.

Cadeirydd

Caiff y Cadeirydd ei benodi gan y Bwrdd Cyflawni Busnes yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol.

Bydd y Cadeirydd yn gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwr Portffolio, Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Uchelgais a bydd yn darparu cyngor perthnasol o ansawdd uchel yn unol â phwrpas a chyfrifoldebau'r bwrdd.

Bydd y Cadeirydd yn hyrwyddo barn y Bwrdd i'r Bwrdd Uchelgais a bydd yn arwain y fforwm wrth ddatblygu a chynnal perthnasau effeithiol rhwng y Bwrdd Uchelgais, ei is-bwyllgorau a'r sector preifat.

Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn aelod ymgynghorol o'r Bwrdd Uchelgais a bydd ganddynt, mewn partneriaeth, rôl allweddol wrth ddarparu mewnwelediad a chyfeiriad i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, mewn perthynas â phenderfyniadau sydd eu hangen i gryfhau economi'r Gogledd.

Aelodaeth

Bydd aelodau'n allblyg ac â chysylltiadau da y tu hwnt i ranbarth y Gogledd. Bydd hyn yn galluogi iddo ddod ag arbenigedd a buddsoddiad posib i'r rhanbarth.

Caiff aelodau newydd eu recriwtio mewn ffordd agored a thryloyw, ac yn unol â'r meini prawf dethol a ddiffinnir isod. Cânt eu henwebu a'u cynnig gan y Bwrdd Cyflawni Busnes cyfredol, a'u cadarnhau gan y Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Bwrdd Uchelgais. Caiff penodiad aelodau ei gadarnhau a'i gyfathrebu gan y Bwrdd Uchelgais.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu ar sail wirfoddol ac, ar y cyd, dylai'r aelodaeth:

- gynrychioli'r holl sectorau perthnasol y rhoddir sylw iddynt gan y Cynllun Twf.
- cynnwys cynrychiolaeth gan y sector menter gymdeithasol a gwirfoddol/trydydd sector.
- ystyried sut mae llais rhanddeiliaid/cyflogwyr strategol allweddol megis y Parc Cenedlaethol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Thai yn cael eu clywed.
- cynnwys uchafswm o 18 aelod.

Wrth benodi aelodau, rhoddir ystyriaeth i sefydlu aelodaeth sydd, gyhyd ag sy'n bosib, yn gytbwys yn gyffredinol fel ei bod yn adlewyrchu ac yn cynrychioli holl ardal ddaearyddol y Gogledd, ei sectorau a'i chymunedau busnes a bydd angen ystyried hyn yn ystod y broses benodi.

Cyllideb

Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn derbyn cyllideb flynyddol gychwynol o £20K i gefnogi a hwyluso gwaith y Bwrdd Cyflawni Busnes. Dylid defnyddio'r gyllideb mewn ffordd sy'n cefnogi ei waith i gyflawni'r deilliannau a ddisgrifir yn ei Gylch Gorchwyl. Gellir defnyddio'r gyllideb ar gyfer digwyddiadau, comisiynu ymchwil, gwaith arolwg neu weithgareddau cyffelyb. Bydd yr holl wariant yn cael ei weinyddu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Portffolio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Gwynedd.

Gwrthdaro Buddiannau

Er mwyn caniatáu i'r Bwrdd Cyflawni Busnes ymgymryd â'i holl swyddogaethau, gwneir gwahaniaeth clir rhwng y rheini sy'n ymwneud â datblygu prosiectau penodol a'r rheini sy'n paratoi argymhellion am y prosiectau hynny i'r Bwrdd Uchelgais. Gweithredir system gadarn o ddatgan gwrthdaro buddiannau. Yn ogystal, mae Ymgynghorwyr y Bwrdd Uchelgais wedi'u rheoli gan God Ymddygiad GA a'r Polisi Gwrthdaro yng nghyswllt buddiannau personol. Disgwylir i aelodau a benodir i'r Bwrdd Cyflawni Busnes gydymffurfio â rhai darpariaethau.

GA2

Fel rhan o benodiad pob parti i'r Bwrdd Cyflawni Busnes, byddant oll yn cydnabod ac yn derbyn telerau GA2 a bydd disgwyl iddynt gydymffurfio â'r rheini sy'n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) Gymal 22 (Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau).

BWRDD CYFLAWNI BUSNES

1. Rôl a Chylch Gwaith

- 1.1. Bydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gweithredu fel llais busnes a chyflogwyr yn y rhanbarth, ac yn gweithio'n agos gyda sefydliadau megis Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy (y corff ymbarél ar gyfer sefydliadau sy'n cynrychioli Busnesau). Bydd yn canolbwyntio ar gyflawni'r Weledigaeth Twf ar gyfer y rhanbarth.
- 1.2. Bydd ganddo rôl allweddol wrth herio a chynghori Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar faterion yn ymwneud â'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf.
- 1.3. Bydd y Bwrdd yn amlygu'r rhwystrau i dwf, ynghyd â dwyn ymlaen syniadau a chynigion. Disgwylir i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sefydlu ffyrdd i gyflawni'r cynigion hyn.
- 1.4. Mae'r Bwrdd yn rhan allweddol o gyfarpar llywodraethu'r Cynllun Twf ac mae ganddo rôl ddeublyg bwysig:
 - Sicrhau bod llais a dymuniadau busnesau yn siapio ac yn dylanwadu ar y Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru a pheccyn a chyflawniad y Cynllun Twf;
 - Sicrhau y gall busnesau gael mynediad i'r cyfleoedd a symbylir ac a gataleiddir gan ddatblygu'r Cynllun Twf, a'u harwain.
- 1.5. Mae'r Bwrdd wedi'i ymrwymo i wneud y gorau o'r cyfleoedd o fewn y Cynllun Twf, a hyrwyddo buddsoddiad anuniongyrchol gan gwmnïau, mentrau a busnesau.
- 1.6. Bydd y Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd a rhwng 9 a 12 aelod. Bydd ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr ac arbenigwyr sector o fusnesau allweddol o'r sectorau economaidd twf a sylfaenol ledled y rhanbarth. Mae disgwyl i Aelodau'r Bwrdd gynnwys swyddogion uwch sy'n gwneud penderfyniadau o sefydliadau a gynrychiolir.
- 1.7. Bydd ei raglen waith (a fydd wedi'i gosod mewn cynllun busnes blynyddol) yn arddangos yn glir y cyfleoedd i'r sector preifat a ddaw yn sgil cyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf. Caiff y cynllun busnes blynyddol a'r cynigion a gyflwynir gan y Bwrdd eu hystyried yn ffurfiol gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er mwyn eu hymgorffori o fewn ei raglen waith.
- 1.8. Bydd yn cryfhau proffil llais a mewnbwn busnesau i'r Cynllun Twf, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei yrru a'i gyflawni gan fusnes a diwydiant, er ei fod yn cael ei arwain yn wleidyddol.
- 1.9. Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod buddsoddiad mewn twf yn cael ei hysbysu a'i siapio gan fusnesau i fusnesau.
- 1.10. Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn aelod ymgynghorol o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Uchelgais bydd ganddo rôl allweddol wrth ddarparu

arweinyddiaeth a chysylltiadau allweddol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Bydd swydd y Cadeirydd yn cael ei hysbysebu a'i phenodi'n gyhoeddus.

- 1.11. Caiff cyfansoddiad a rôl y Bwrdd o fewn llywodraethiant y Cynllun Twf a'i gydberthynas gyda'r Cyd-bwyllgor ei gwmpasu yng Nghytundeb Llywodraethu 2. Rhaid i'r Bwrdd fod yn hyblyg i newid ei gyfansoddiad a'i rôl fel y gwêl yn dda er mwyn bod mor annibynnol â phosib. Caiff cyfansoddiad ac rôl y Bwrdd a unrhyw newidiadau ei gytuno gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
- 1.12. Bydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn ystyried yn llawn a derbyn unrhyw gyngor neu her gan y Bwrdd Cyflawni Busnes. Bydd unrhyw argymhellion ffurfiol gan y Bwrdd Cyflawni Busnes i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad ysgrifenedig fydd yn cael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Bwrdd gydag ymateb a rhesymau yn cael eu cofnodi a'u cyfathrebu.

2. Cyfrifoldebau Allweddol

2.1. Bydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gyfrifol am:

- Adolygu a siapio'r Weledigaeth Twf ar gyfer y Gogledd;
- Herio ac adolygu'r portffolio o brosiectau a gynigir o fewn y Cynllun Twf ac ystyried a herio'r Achosion Busnes Llawn ar gyfer prosiectau unigol er manteisio i'r eithaf ar effaith y cynllun ar gyfer y rhanbarth, gan sicrhau buddsoddiad uniongyrchol ac anuniongyrchol ychwanegol o'r sector preifat ar gyfer y Cynllun.;
- Canolbwyntio ar gyflawni prosiectau a gomisiynir gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a sicrhau y gall busnesau gael mynediad i'r cyfleoedd a gataleiddir gan y Cynllun Twf, a'u harwain;
- Darparu rôl eirioli, gan hyrwyddo'r rhanbarth fel prif leoliad ar gyfer buddsoddwyr ac ymwelwyr a gweithio gyda phartneriaid i gynyddu gwerth ac ansawdd mewnfuddsoddi;
- Rhoi cyngor ar ymyrraeth arfaethedig gan randdeiliaid allweddol eraill, yn cynnwys Llywodraeth Cymru.

2.2. Bydd y Bwrdd yn gweithio yn agos ac mewn partneriaeth gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

3. Cadeirydd y Bwrdd

3.1. Caiff y Cadeirydd ei benodi ar sail tymor penodol o ddwy flynedd, gyda nifer y tymhorau wedi'i gyfyngu i ddau.

3.2. Tybir y byddai'r ymrwymiad amser, er yn hyblyg, yn un diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd, ond bydd lefel yr ymrwymiad yn amrywio dipyn ar draws y tymor.

3.3. Bydd y rôl yn derbyn cydnabyddiaeth ar lefel sy'n adlewyrchu arwyddocâd y rôl.

3.4. Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am:

- Arwain y Bwrdd, gan sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau;

- Cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd, casglu barnau sydd wedi'u mynegi gan bob grŵp rhanddeiliaid a, lle bo angen, dod i gonsensws;
- Cyfathrebu a chynrychioli argymhellion y Bwrdd ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru;
- Bod yn arweinydd "busnes" a phencampwr dros y rhanbarth yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Dylai'r Cadeirydd feddu ar y cefndir a'r profiad a ganlyn:

- Bod yn aelod o gymuned fusnes y sector preifat;
- Meddu ar brofiad arweinyddiaeth uwch helaeth;
- Cael rhwydwaith eang o gysylltiadau cyhoeddus, preifat ac yn y llywodraethau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r rhanbarth.

- 3.5. Darperir cefnogaeth strategol, ymchwil, polisi a chyfryngau i'r Cadeirydd a'r Bwrdd Cyflawni Busnes gan y Swyddfa Rheoli Portffolio (unwaith y bydd wedi'i sefydlu'n llawn).
- 3.6. Bydd angen i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gymeradwyo penodiad y Cadeirydd. Caiff y broses ei goruchwyllo gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Yn unol â chymeradwyaeth Llywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru bydd y Cadeirydd yn cael ei benodi gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
- 3.7. Caiff y Cadeirydd ei benodi yn unol â'r safonau cydnabyddedig ar gyfer penodiadau cyhoeddus, yn cynnwys hysbyseb agored.

4. Dethol Aelodau'r Bwrdd Cyflawni Busnes

- 4.1. Rhaid i'r broses ddethol fod yn agored ac yn dryloyw, gan ddefnyddio'r meini prawf dethol a restrir isod.
- 4.2. Bydd y Panel Penodi yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes. Bydd y Panel yn cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd Uchelgais i gymeradwyo'r ymgeiswyr mwyaf addas i'w penodi.
- 4.3. Caiff rôl Aelodaeth y Bwrdd ei hysbysebu'n gyhoeddus i annog ystod eang o geisiadau. Bydd cyfres gyfunol o sgiliau a phrofiad y Bwrdd yn ystyriaeth allweddol. Bydd proses ymgeisio a fydd yn caniatáu i aelodau arfaethedig gael eu henwebu.
- 4.4. Ar y cyd, dylai'r Bwrdd feddu ar y wybodaeth a'r sgiliau a ganlyn:
- Dealltwriaeth o economi'r Gogledd a gwerthfawrogiad o gyfleoedd yn y sectorau economaidd twf a sylfaen ledled y rhanbarth
 - Rhwydwaith eang o gysylltiadau ledled y DU ac yn rhyngwladol;
 - Profiad o ddadansoddi ac asesu gwybodaeth fasnachol, dechnegol ac ariannol er mwyn rhoi cyngor safonol i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau;
 - Profiad o ddarparu cyngor diduedd am brosiectau a mentrau, yn benodol yng nghyswllt eu hyfywedd a'u heffaith ar faterion cyflogaeth ac economi.
- 4.5. Ymgwymerir â'r broses mewn ymgynghoriad â'r ddwy Lywodraeth.

- 4.6. Wrth benodi aelodau, rhoddir ystyriaeth i sefydlu aelodaeth sydd, gyhyd ag sy'n bosib, yn gytbwys yn gyffredinol fel ei bod yn adlewyrchu ac yn cynrychioli holl ardal ddaearyddol y Gogledd, ei sectorau a'i chymunedau busnes a bydd angen ystyried hyn yn ystod y broses benodi.

5. Gwrthdaro Buddiannau

- 5.1. Er mwyn caniatáu i'r Bwrdd Cyflawni Busnes ymgymryd â'i holl swyddogaethau, gwneir gwahaniaeth clir rhwng y rheini sy'n ymwneud â datblygu prosiectau penodol a'r rheini sy'n paratoi argymhellion am y prosiectau hynny i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Gweithredir system gadarn o ddatgan gwrthdaro buddiannau. Yn ogystal, mae Ymgynghorwyr y Bwrdd Uchelgais wedi'u rheoli gan God yng nghyswllt buddiannau personol. Disgwylir i aelodau a benodir i'r Bwrdd Cyflawni Busnes gydymffurfio â rhai darpariaethau.

6. GA2

- 6.1. Fel rhan o benodiad pob parti i'r Bwrdd Cyflawni Busnes, byddant oll yn cydnabod ac yn derbyn telerau GA2 a bydd disgwyl iddynt gydymffurfio â'r rheini sy'n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) Gymal 22 (Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau).